



CDLI09 - Dylunio

Mabwysiadwyd Gorffennaf 2015

Gellir gweld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar: www.conwy.gov.uk/cdll, Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Adeilad Muriau Rosehill Street, Conwy LL32 8LD neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon a fydddech gystal â chysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445 / 575124 / 574232.

Os hoffech gael rhan neu grynoded o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575461.

Datganiad Ymgynghori

Ymgynghorwyd yn gyhoeddus ynglŷn â'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn am gyfnod o chwe wythnos rhwng 16 Mawrth 2015 a 24 Ebrill 2015

Cawsant eu mabwysiadu gan y Cabinet ar 14 Gorffennaf 2015

Mae copïau o'r sylwadau a gafwyd, ynghyd ag ymateb y Cyngor, i'w gweld ar-lein ar <http://conwy.jdi-consult.net/ldpcym/>

1. Cyflwyniad ac Amcanion

Cynnwys

- | | |
|---|--|
| 1. Cyflwyniad ac Amcanion | 7. Asesu Dylunio mewn Ardaloedd Sensitif |
| 2. Diffinio Dylunio Da | 8. Gwerth Dylunio Da |
| 3. Dylunio yng Nghonwy | 9. Geirfa |
| 4. Amcanion Dylunio Da | 10. Fframweithiau Perthnasol a Chanllawiau Pellach |
| 5. Gweledigaeth Ddylunio ar gyfer Conwy | 11. Manylion Cyswllt |
| 6. Dylunio Manwl – Datganiad Dylunio a Mynediad | |

1.1 Mae'r ddogfen hon yn un o gyfres o ddogfennau canllawiau Cynllunio Atodol CCA) sy'n darparu cyngor pellach ynglŷn â'r polisïau yng Nghynllun Datblygu Lleol Conwy (CDLI).

Mae CCA Dylunio yn ceisio codi safonau dylunio adeiladau a thirwedd ar gyfer yr holl ddatblygiadau yng Nghonwy. Mae'r canllawiau yn darparu offer dylunio ymarferol i'w defnyddio gan bawb sy'n rhan o'r broses ddylunio a datblygu, boed angen caniatâd cynllunio ai peidio. Defnyddir amrywiaeth o esiamplau lleol i gynorthwyo i egluro'r amcanion cyffredinol.


Y gredo sy'n sylfaen i'r Canllawiau hyn yw mai'r dull cywir yw archwilio'r cyd-destun ar gyfer unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn fanwl a chysylltu'r adeilad newydd gyda'i amgylchoedd drwy werthusiad cymeriad llawn gwybodaeth. Nid yw hyn yn awgrymu bod un math o ddull pensaernïol, yn ôl ei natur, yn fwy tebygol o lwyddo na math arall. I'r gwrthwyneb, mae'n golygu cyn gynted ag y defnyddir un fformiwla sengl mae prosiect yn debygol o fethu, boed y fformiwla'n cynnwys 'cyd-fynd' neu 'cyfuno hen a newydd'.

Bydd prosiect llwyddiannus:

- Yn cysylltu'n dda a chyd-destun a hanes y lleoliad
- Yn cyd-fynd â phatrwm datblygiad presennol a'r llwybrau drwyddo ac o'i gwmpas.
- Yn parchu golygfeydd pwysig
- Yn parchu graddfa adeiladau cyfagos
- Yn defnyddio deunyddiau a dulliau adeiladu sydd o'r un ansawdd uchel â'r rhai a ddefnyddiwyd yn yr adeiladau presennol
- Creu golygfeydd a chyfosodiad newydd sy'n ategu at y lleoliad.

Mae'r dull cywir yn cynnwys proses lawn yn ogystal â'r gwaith dylunio, o benderfynu'r hyn sydd ei angen, i benodi pensaer, i drafodaethau cynnar gyda'r awdurdod cynllunio a derbyn cymeradwyaeth ganddynt.

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi ar gyfer unrhyw un sy'n cyfrannu at greu llyfdd, gan gynnwys cynllunwyr, penseiri, dylunwyr, datblygwyr, gwleidyddion, sefydliadau gwirfoddol a grwpiau pwysau, ac aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn dylunio amgylchedd adeiledig a naturiol Conwy.



2. Diffinio Dylunio Da

2.1

Dylunio mewn Cynllunio

‘Ystyr dylunio yw’r berthynas rhwng holl elfennau’r amgylchedd naturiol ac adeiledig. I greu datblygiadau cynaliadwy, mae’n rhaid i’r dyluniad fod yn fwy nag estheteg a rhaid cynnwys effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y datblygiad, gan gynnwys y gwaith adeiladu, gweithredu a rheoli, ei berthynas a’i amgylchoedd.’


(Polisi Cynllunio Cymru, para 4.10.1)

Mae ymddangosiad gweledol datblygiad arfaethedig, ei raddfa a’i berthynas â’i amgylchoedd a’r cyd-destun yn ystyriaethau cynllunio perthnasol (para 4.10.9 PCC). Bydd y Cyngor yn gwrthod dyluniadau adeiladu a chyd-destunol gwael; fodd bynnag, nid yw polisi’r CDLI na’r CCA hwn yn ceisio gosod chwaeth bensaernïol benodol neu arddull ormesol. Anogir datrysiadau dylunio arloesol ac mae’r canllawiau yn y ddogfen hon yn cynnig datrysiadau dylunio.

Mae pob tref neu bentref yn unigryw a chanddynt eu cymeriad a’u hunaniaeth eu hunain, wedi’i lunio gan dirwedd a lleoliad, ac yn cynnwys adeiladau, strydoedd, gosodiadau a phlotiau penodol.

Mae sut y mae gwrthrych fel cyfanwaith yn cysylltu â’i rannau yn ffurfiol sylfaen unrhyw ddyluniad. Mae hyn yn cynnwys elfennau o blot, er enghraifft, tŷ, garej, adeiladau allanol a ffiniau, neu sut y mae plot yn cysylltu â’r plotiau cyfagos, megis mewn rhes o dai. Ar raddfa uwch, gall hyn hefyd gynnwys sut y mae anheddiad yn cysylltu â’i dirwedd.

Mae dyluniad yn cynnwys siâp a **graddfa** adeilad. Mae’n cynnwys sut y mae’r adeilad yn cyd-fynd â’r adeiladau eraill, yn erbyn y stryd ac fel rhan o raen trefol (bloc, gwasgaredig, dwysedd isel, uchel a chywsgedig). Mae’r nodweddion hyn yn ffurfio **cyd-destun** y safle.



Llun: Oriel Mostyn, Llandudno.

2.2

Cyd-destun

Lleoliad safle a chymeriad yr amgylchoedd ehangach—y pethau sy’n gwneud y lle’n arbennig. Bydd y cyd-destun yng Nghonwy’n amrywio’n sylweddol o drefi arfordirol a threfi marchnad i bentrefi gwledig a chlystyrau bychain o adeiladau yn rhan o’r tirlun.

2.3

Graddfa

Datblygiad sy’n rhan o lefel graddfa, ei leoliad fel elfen fwy (deunydd, manylion, adeiladu, plot, stryd, cymdogaeth, anheddiad), ei siâp a maint (mas), a threfniant ei gydrannau.

‘Mae datblygiadau sydd wedi’u dylunio’n wael yn annerbyniol, gallant leihau’r canfyddiad o ddiogelwch, cynyddu troseddu, annog pobl i beidio ag ailgylchu, cynyddu’r defnydd o ynni, ac annog y preswylwyr i beidio ymarfer a defnyddio mannau agored lleol.’

(CDLI Conwy, para 4.1.3.2)



Llun: Swyddfa Sir Augusta Margaret River, WA.

3. Dylunio yng Nghonwy

3.1

Mae gan Sir Conwy gyfoeth o arddulliau Pensaernïol amrywiol, yn amrywio o fythynnod tyddynwyr brodorol ardal Eryri ac argaeledd cerrig, pren a llechi yn dylanwadu ar ddyluniad mewndirol ac ardaloedd o Ddyffryn Conwy i gyrchfannau glan y môr Fictoraidd a dylanwad yr arddull glasurol yn rhannau o Landudno a Phenmaenmawr. Mae'r arddull Celf a Chrefft yn amlwg ac adnabyddus yn Llanfairfechan gan greu thema wledig drwy ddefnyddio llechi carreg gyda waliau plastr garw neu gerrig mân (gweler y lluniau isod).

3.2

‘Mae'r sir yn hynod wobrwyl o ran pensaernïaeth. Mae'r cyfnod canoloesol wedi gadael etifeddiaeth wych, gan gynnwys cestyll o gyfnod Edward y Cyntaf, adfeilion mynachaidd, plasty yn y wlad yn amrywio o ran maint ac uchelgais megis Neuadd Cinmel ac amrywiaeth o adeiladau llai, gostyngedig ond o ansawdd. Mae trefi a chyrchfannau glan y môr yn ychwanegu at y patrwm o arddulliau a deunyddiau – patrwm a gyfoethogir ymhellach gyda chreiriau y Chwyldro Diwydiannol ac amrywiaeth trawiadol yr arddulliau brodorol’. (Hubbard – Cyfrol Clwyd Adeiladau yng Nghymru)

Roedd creu ac ymestyn y cysylltiadau cludiant, o'r hen A5 drwy Gonwy wledig, i reilffordd gogledd Cymru yn y 19eg Ganrif, i ddatblygiad yr A55 yn 1980au, wedi llunio datblygiad Conwy ac wedi dylanwadu ar ddyluniad aneddiadau, o'r gosodiad i'r dyluniad gan adlewyrchu cyfnod penodol.

3.3

Pensaernïaeth a Gorffeniadau Adeiladau

Fel y gwelir yn Llanrwst, mae nifer o'r adeiladau cynnar, wedi'u hadeiladu o rwbel wedi'u gorchuddio â cherrig mân traddodiadol ynghyd â drysau gwastad uchel a ffenestri wedi'u hamgylchynu gan rendrad sment. Roedd hyn yn arferiad wrth foderneiddio ar ddiwedd yr 19eg ganrif; gellir gweld esiampl sydd wedi dyddio ar Stryd y Farchnad, Abergele.

Mae'r dull o orchuddio gwaith maen yn parhau gydag erwau o rendrad sment llym yn gorchuddio ffasâd tai teras gostyngedig, waeth beth fo'r deunydd oddi tano, boed yn frics neu'n gerrig, yn blaen neu wedi'i addurno'n helaeth, Sioraidd neu Edwardaidd. Roedd manylion arwynebau gwreiddiol sy'n rhoi cymeriad i'r adeiladau hyn yn cael eu difa, ac yn aml roedd yr addasiad yn cynnwys disodli'r ffenestri dalennog gyda dyluniadau plastig neu alwminiwm, yn aml yn lledu'r agoriadau.

3.4

Roedd gorchuddio â cherrig mân hefyd yn elfen allweddol o balet y mudiad Celf a Chrefft (lluniau isod: adeiladau Herbert Luck North yn y Close, Llanfairfechan (tua 1922). Codwyd pryderon fod datblygiadau diweddar wedi methu ag ymateb i gyd-destun safle drwy fabwysiadu deunyddiau a gosodiadau nad ydynt yn cyfrannu neu'n gwella cymeriad neu arwahanrwydd lleol y lleoliad.

3.5

Treflun – Mae nodweddion adeiledig, megis cestyll hanesyddol ac eglwysi, yn cynorthwyo eglurder yng Nghonwy. Mae arddulliau pensaernïol wedi datblygu dros amser. Gellir darparu arddulliau gwahanol a'u dehongli mewn dull cyfoes heb orfod darparu dyblygiad pastiche.



3.6

Waliau

Yn draddodiadol mae gan Ogledd Cymru ddiffyg cerrig rhywiog ond llwyth o bren derw, canlyniad hyn oedd traddodiad cryf o adeiladau â ffrâm pren, fel Aberconwy House, a Thŷ'r Archesgob, Conwy yn cael eu hadeiladu a seiri coed yn cynhyrchu mwy o waith gorffenedig na'r seiri maen. Roedd prinder cerrig o ansawdd da yn golygu fod adeiladau'n cael eu hadeiladu gyda rwbel nes y datblygwyd y mwyngloddio a gwaith maen yn yr 18fed Ganrif gan ganiatáu i adeiladwyr ddefnyddio gwaith maen sgwâr ac mewn haenau. Roedd y cerrig arferol fyddai'n cael eu defnyddio wrth adeiladu yn ystod y 18fed ganrif yn cynnwys Calchfaen Carbonifferaidd o Fryniau Clwyd, a ddefnyddiwyd i adeiladu Castell Bodolwyddan ac Eglwys Prestatyn. Yn ddiweddarach yn y ganrif canfuwyd tywodfaen coch ger Hirwaen oedd yn cael ei ddefnyddio wedi hynny i addurno a cherfio manylion, gan amrywio o'r llwyth o galchfaen arian a ddefnyddiwyd yn flaenorol, gellir gweld hyn ar adeiladau yn Llandudno a Bae Colwyn.

Ni fabwysiadwyd adeiladau brics yn y Sir am gryn amser wedi hynny pan ganfuwyd ei fod yn ddeunydd y gellir ei addasu'n hawdd er mwyn adeiladu nifer o adeiladau fferm bychain a thai brodorol Sioraidd, gyda dylanwadau'r dadeni megis cymesuredd a manylion clasurol. O fewn cyfnod byr o amser sefydlwyd gwaith brics Rhiwabon, Bwcle a Phen-y-Bont ac felly roedd brics yn fforddiadwy a chanolbwyntiodd y diwydiant adeiladu ar ddefnyddio'r deunydd newydd hyn oedd yn hawdd ei gael.



Y Ganolfan Adeiladu Naturiol, Llanrwst

3.7

Toeau

Toeau llechi sydd i'w gweld gan amlaf yng Ngogledd Cymru, gyda'r adeiladau cyfoes, 1927 ymlaen, â thoeau teils clai coch a nifer fechan â tho gwellt.

Yn ystod ffyniant adeiladu'r 1930au roedd gan yr adeiladau, yn enwedig tai, doeau teils clai coch oedd yn cael eu gweithgynhyrchu yng ngwaith brics Rhiwabon. Gellir canfod stadau tai a adeiladwyd rhwng y rhyfeloedd ledled y sir gyda'u toeau teils clai gwreiddiol yn parhau i oroesi.



Lluniau: Deunyddiau hanesyddol a chyfoes gan gynnwys Tŷ Unnos, Dolwyddelan ym Mharc Cenedlaethol Eryri (dde)

3.8

Casgliad

Roedd datblygu rhwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd yn golygu fod Gogledd Cymru'n troi ei gefn ar ddeunyddiau lleol ac yn fuan wedi hynny daeth dirywiad yn y traddodiadau brodorol a phensaernïaeth unigryw leol yn y Sir. Ar yr adeg hon roedd penseiri adnabyddus yn cael eu comisiynu i ddylunio datblygiadau mawr ar dir ystadau newydd, yn aml mewn blociau ac o'r dyluniadau oedd yn ffasiynol ar y pryd, bron fel petaent yn dewis dyluniad o gatalog.

3.9

Mae stoc adeiladau a thai Gogledd Cymru yn cynnwys waliau solet yn bennaf. Mae ailddefnyddio ac addasu'n hynod gyffredin ac fe ffefrir hyn yn hytrach na cholli safleoedd tir glas. Drwy ddatblygu'r adeiladau hyn mae'n allweddol bod y deunyddiau a'r technegau priodol yn cael eu defnyddio.



Uchod: To llechi â hoelion traddodiadol sy'n para am ganrifoedd a gellir ei atgyweirio'n hawdd.

4. Amcanion Dylunio Da



Diagram: Amcanion Dylunio Da. Ffynhonnell: TAN12: Dylunio (2014)

4.1 Yn hytrach na gosod safonau rhagnodol a chanllawiau dylunio llym, mae'r ddogfen hon yn dehongli polisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau i lefel leol yng nghydestun CDLI Conwy.

4.2 Gwerthuso Cyd-destun

Mae'r diagram ar y chwith yn dangos 'Amcanion Dylunio Da' (Gweler TAN 12:Dylunio), cyfres o egwyddorion arweiniol y dylid eu diwallu mewn unrhyw gynllun neu gynnig. Fel y dengys y diagram, er mwyn diwallu'r pum amcan mae angen gwerthuso cyd-destun cynnig, yn lleol (beth sydd 'ar y tir' - y lleoliad a rhinweddau) ac arwyddocâd cenedlaethol neu ehangach (megis dynodiadau, polisiâu a strategaethau).

Bydd yn rhaid i nifer o'r cynlluniau ymateb i'r cyd-destun lleol o ddatblygiad presennol, megis mewn Ardal Gadwraeth. Efallai y bydd eraill, megis ar ffin anheddiad safle tir glas neu gynllun estyniad trefol cynaliadwy mawr, mewn ardal lle bo'r cyd-destun amgylchynol yn amherthnasol. Fel arfer, efallai na fydd gan yr ardal amgylchynol unrhyw rinwedd nodweddiadol ac ychydig iawn neu ddim hunaniaeth, felly dylid gwneud pob ymdrech i sefydlu patrwm newydd cryf yn seiliedig ar y pum amcan a'r canllawiau yn y ddogfen hon. Bydd dilyn y broses ddylunio a chwblhau DDM yn cynorthwyo i sefydlu'r cyd-destun ac os dylai datblygiad arfaethedig ddilyn thema bresennol neu greu rhinweddau newydd.

Nid yw hyn yn ddewis eglur rhwng dulliau dylunio hanesyddol neu gyfoes; gellir darparu dyluniad o safon uchel drwy gyfuno datrysiadau hanesyddol a chyfoes.

4.3

Mater o flaenoriaeth yn y CDLI yw mynnu dyluniad cynaliadwy o ansawdd uchel i gynnal a gwella cymeriad Conwy ynghyd â darparu dyluniad sy'n fwy arloesol i annog y boblogaeth iau i aros a dychwelyd i'r ardal. Mae CBS Conwy wedi cymhwyso'r amcanion uchod yn y weledigaeth ar gyfer Ardal y Cynllun ac yn cynnwys yr amcanion canlynol sy'n gysylltiedig â dylunio:

SO10: Sicrhau bod dylunio cynhwysol, cynaliadwy, da yn cael ei ddarparu sy'n cynnwys cyfle i greu dyluniad sy'n atal trosedd, i ddatblygu cymunedau lleol nodweddiadol sy'n gryf a diogel ac annog y boblogaeth iau i aros a dychwelyd i'r ardal.

SO11: Lleihau'r defnydd o ynni drwy leoli a dylunio adeiladau'n ofalus a hyrwyddo datblygiadau ynni cynaliadwy lle bo gobaith iddynt fod yn ddeniadol yn economaidd ac yn dderbyniol o ran yr amgylchedd a chymdeithas.

SO14: I hyrwyddo'r defnydd doeth o adnoddau drwy leihau gwastraff a chynorthwyo i ddarparu rhwydwaith integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff i gyd-fynd ag anghenion yr ardal a hierarchaeth gwastraff.

5. Gweledigaeth Ddylunio ar gyfer Conwy

5.1

Y broses ddylunio

Dylai'r broses ddylunio ganolbwyntio ar ddiwallu'r amcanion dylunio da a amlinellwyd yn yr adran flaenorol. Dylid cyflwyno'r broses ddylunio mewn Datganiad Dylunio a Mynediad (DDM), pan fydd gofyn am un gyda'r cais. Bydd y DDM yn egluro egwyddorion a chysyniadau sydd wedi'u cymhwyso i ddyluniad y datblygiad a sut yr ymdrinnir â materion ynghylch mynediad.

Gall y camau dilynol o broses ddylunio weithio ar gyfer unrhyw raddfa, boed yn estyniad i dŷ, datblygiad masnachol newydd neu estyniad trefol i anheddiad cyfredol.

'Nid yw dylunio da yn anochel, rhaid wrth broses gydweithredol, greadigol gynhwysol sy'n datrys problemau ac yn arloesi' (TAN12, para 2.5).

Cydweithredu 5.3

Mae dyluniad da yn gofyn am ymagwedd gydweithredol ym mhob cam o'r broses ddylunio, gan ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol i ddarparu cyngor arbenigol a defnyddwyr terfynol / budd-ddeiliaid, i gynhyrchu ymrwymiad a rennir i ansawdd dylunio, ymdeimlad o berchnogaeth a chonsensws. Dylid arddangos y dewiswyd y dewis a ffeirir drwy broses o gydweithredu.

Gweithio gyda'n Gilydd 5.4

Mae dylunio da'n golygu ystyried dylunio'n gynnar, ymhell cyn cyflwyno unrhyw gais cynllunio. O'r cychwyn cyntaf dylid gwerthfawrogi cyd-destun y safle, datblygu gweledigaeth a sefydlu amcanion dylunio.

Ymgysylltu 5.5

Dylai bod y system gynllunio yn gweithredu i godi safonau dylunio a chodi ymwybyddiaeth o faterion dylunio. Mae'r awdurdod cynllunio'n darparu gwasanaeth ymholiad cyn-cyflwyno cais i gynorthwyo datblygwyr â'r broses gynllunio a dylunio, gyda thrafodaethau cyn cyflwyno cais a chynghor ynglŷn â pharatoi DDM.

"I sicrhau datblygu cynaliadwy, rhaid i ddylunio gynnwys agweddau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y datblygiad, gan gynnwys y modd y caiff ei adeiladu, ei weithredu a'i reoli, a'i berthynas â'r hyn sydd o'i gwmpas." (Polisi Cynllunio Cymru, 4.11.1)

5.2

Gwerthuso Cyd-destun

Beth yr ydym yn ei ddeall ynglŷn a'r lle a'i leoliad?

Pa bolisiâu, canllawiau sy'n berthnasol i'r safle a/ neu'r ardal?

Pa ddefnydd sy'n realistig ac y gellir ei gyflawni o ystyried yr amodau?

Gweledigaeth/ Nod

Pa fath o le yr ydym am iddo fod?
Pa egwyddorion y dylid eu defnyddio fel sylfaen i'r datblygiad?


Cytuno ar brosesau y dylid eu cynnwys (ymgyngori, budd-ddeiliaid)

Asesu Materion Dylunio

Gweler Polisi DP/3 a'r meini prawf dylunio

Dylunio Manwl

Cynlluniau, brasluniau a gosodiad dangosol mewn ymateb i asesiad y materion uchod



Gwerthuso Cyd-destun

5.6

Ystyriwch y materion ffisegol, cymdeithasol, economaidd a'r polisïau canlynol:

Gofod

Diffinnir 'gofod' fel y bwlch rhwng yr elfennau adeiledig a gall gynnwys strydoedd, sgwariau cyhoeddus, gerddi a pharciau, mannau gwyrdd ac ati.

Mae gofod ffurfiol yn elfen benodol o ddylunio trefol, wedi'i gynllunio i fod yn nodwedd amlwg a gall gynnwys sgwâr tref neu stryd sy'n bensaernïol unffurf.

Gofod anffurfiol yw un sydd wedi datblygu mewn modd organig heb unrhyw osodiad wedi'i gynllunio, yn ymgorffori amrywiaeth eang o nodweddion nad ydynt â chysylltiad cryf gyda'i gilydd o bosib a gellir eu defnyddio mewn amrywiaeth o ddulliau e.e. Gofod heb unrhyw linellau adeiladau penodol, amrywiaeth o arddulliau adeiladau a lleoliadau, waliau uchel ac isel, deunyddiau amrywiol a lle bo'r ffordd ei hun yn amrywio o ran lled.

Mae'r bylchau rhwng adeiladau yn bwysig o ran darparu cyfleoedd i greu golygfeydd bychain allan o'r gofod ynghyd â chreu 'gofodau anadlu' o fewn y strydlun drwy ymyrru ar barhad yr elfennau adeiledig. Gall y bylchau rhwng yr adeiladau fod yn fynediad i ofodau cefn, strydoedd cul yn arwain o un man i un arall ac ati.

5.7

Deunyddiau

Wrth ddadansoddi strydoedd, nid oes angen disgrifiad manwl o adeiladau unigol, eu cymeriad ar y cyd a'u cyfraniad i'r ardal sy'n cael ei ystyried. Os bydd adeilad penodol yn amlwg naill ai oherwydd dyluniad unigol neu'r defnydd o ddeunyddiau (da neu ddrwg), gellir crybwyll hyn. Ystyriwch y canlynol:

- A oes deunydd adeiladu amlwg?
- A oes amrywiaeth eang o ddeunyddiau sy'n creu strydlun amrywiol?
- Ydi'r deunyddiau yn cyd-fynd â'i gilydd?
- A oes unffurf yn neunyddiau'r toeau neu amrywiaeth o ddeunyddiau?

5.11

Adeiladau Eraill

A oes unrhyw adeiladau yn yr ardal yn cael eu hasesu? Sut y maent yn cyfrannu a beth yw eu perthynas â'r gofod?

- Ffrynt parhaus ar hyd ffordd ddinesig.
- A yw'r gofod yn fwy agored o ran ei gymeriad gyda dim ond perthynas gyfyngedig gyda'r elfennau adeiledig?

5.8

Perthynas rhwng y gofod â'r elfennau adeiledig

- Beth yw'r berthynas rhwng y gofod a'r elfennau adeiledig?
- Ydi'r adeiladau yn ffurfio elfen allweddol o'r gofod, yn creu ymdeimlad clir o dir caeedig neu ddiffiniad?
- Ai'r adeiladau yw'r elfen eilaidd yn y gofod, gyda'r bwlch rhwng llinellau'r adeiladau yn brif nodwedd?
- A oes perthnasau amrywiol rhwng yr elfennau adeiledig a'r gofod?

5.9

Golygfeydd

Beth yw'r golygfeydd i mewn, allan a thrwy'r gofod?

- Hir e.e. Ar hyd y ffordd i gyd.
- Byr.
- Golygfa ymagored oherwydd gosodiad yr elfennau adeiledig o amgylch y gofod.

5.10

Defnydd


Gall y modd y defnyddir yr ardal ddylanwadu ar ei gymeriad cyffredinol.

- Stryd fasnachol fywiog gyda llawer o weithgarwch
- Ardal academiaidd gyda myfyrwyr yn mynd heibio
- Ffordd breswyl dawel.

Mae gan nifer o ardaloedd fwy nag un defnydd a gall y modd y defnyddir yr ardal amrywio gan ddibynnu ar adeg y dydd.

Gall y modd y defnyddir yr adeiladau ddylanwadu ar gymeriad ac edrychiad ardal.

- Gall adeiladau gyda ffrynt gweithredol megis siopau, caffis, a defnyddiau yn ystod y gyda'r nos gan gynnwys tafarndai a theatrau greu strydlun bywiog a phrysur.
- Efallai y bydd strydoedd masnachol gyda defnydd swyddfa'n bennaf yn brysur yn ystod y dydd ond yn dawel yn ystod y nos.
- Gall ardaloedd academiaidd fod yn dawel pan nad yw'n dymor ysgol neu gall y defnydd amrywio ac efallai y byddant yn gyrchfannau twristiaid ar adegau penodol o'r flwyddyn.
- Mae gan ardaloedd preswyl gymeriad newidiol gan ddibynnu ar yr amser, adeg o'r flwyddyn, lleoliad ac ati.
- A yw'n brif lwybr traffig neu'n barth i gerddwyr yn unig?



Gwerthuso Cyd-Destun

5.12

Golau / Tywyll

- Ydi'r adeiladau, coed, lled y gofod ac ati, yn dylanwadu ar faint o olau sydd yn y gofod?
- Gall ffordd gul gyda llinell adeiladau tynn yn llawn adeiladau tal greu gofod tywyllach gyda chysgodion a diffyg cyfle i olau gael mynediad i'r gofod.
- Rhodfa lydan neu ofod gardd lle bo golau yn nodwedd drechol yng nghymeriad y lle.

5.13

Arwynebau

Gall arwynebau ffyrdd a phalmentydd ffurfio cyfran sylweddol o'r gofod a chael effaith fawr ar gymeriad ardal gan ddibynnu ar y cyflwr a'r math o arwyneb ydyw. Gall ffordd darmac â thyllau a darnau wedi'u hatgyweirio fod yn negyddol lle bo stryd â choblau yn elfen fwy cadarnhaol.

5.14

Gwyrddni a Nodweddion Tirlunio

- A oes elfennau penodol o wyrddni sy'n ychwanegu at gymeriad y lle e.e. Rhodfa o goed, coeden nodweddiadol unigol mewn lleoliad dinesig, gwyrddni'n crogi o ofod preifat ac ati.
- A oes nodweddion eraill sy'n cyfrannu at edrychiad ac arwyddocâd y lle e.e. Afon, ffurfiau tir sy'n codi, dolydd ac ati.

5.15

Defnyddioldeb a hygyrchedd y gofod

- Pa mor hawdd yw defnyddio'r gofod?
- A yw'n ofod a rennir? E.e. New Inn Hall Street - a yw'n effeithio ar y modd a pha mor hawdd yw defnyddio'r gofod?
- A oes rhwystrau ar hyd y palmentydd sy'n atal eu defnydd; e.e. Beiciau wedi'u cloi yn erbyn rheiliau, byrddau hysbysebu ac ati?
- A yw arwyneb y ffordd yn atal mynediad i ddefnyddwyr penodol e.e. Cadeiriau olwyn, pramiau, beiciau ac ati.
- Sut y mae hyn yn effeithio ar gymeriad y lle?

5.16

Arogl

- Gall aroglau gael effaith andwyol a deniadol ar ardal-gall mwg traffig ddifetha mwynhad rhywun o'r stryd lle bo arogl blodau neu awyr iach mewn lleoliad gwledig yn gallu gwella'r profiad.



Ystyried y Dylunio – Cyd-destun Polisi

5.17

Polisi Cynllunio Cymru

Adran 4.10

Nodiadau Cyngor Technegol

- 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)
- 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)
- 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored (1996)
- 8: Ynni Adnewyddadwy (2005)
- 9 a 10: Gorfodi (1997)
- 11: Sŵn (1997)
- 12: Dylunio(2009)
- 13: Twristiaeth (1997)
- 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (2004)
- 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009)
- 18: Trafnidiaeth (2007)
- 19: Telathrebu (2002)
- 22: Adeiladau Cynaliadwy (2010)

Safonau Cenedlaethol Cydnabyddedig

- Diogelu drwy Ddylunio
- Llawlyfr Strydoedd
- Safon Cartrefi Gydol Oes

Mae nifer o bolisiâu'r CDLI sy'n berthnasol i ddylunio yn ogystal â pholisi DP/3. Bydd y polisiâu hyn wedi'u cyfeirnodu dan yr Amcanion Dylunio Da yn adran 6: Dylunio Manwl—Datganiad Dylunio a Mynediad

Canllawiau Cynllunio Atodol Perthnasol y CDLI

- CDLI1: Canllaw Dylunio i Berchnogion Tai
- CDLI2: Safonau Parcio
- CDLI3: Diogelu Wyneb Siopau
- CDLI4: Rhwymedigaethau Cynllunio
- CDLI5: Bioamrywiaeth a Chynllunio
- CDLI8: Adeiladau a strwythurau o bwysigrwydd lleol

Bydd canllawiau cynllunio eraill yn cael eu paratoui; gweler gwefan y CDLI i gael yr wybodaeth ddiweddaraf

Polisi CDLI DP/3: Hyrwyddo Ansawdd Dylunio a Lleihau Trosedd

1. Bydd pob datblygiad newydd o ansawdd uchel, dyluniad cynaliadwy sy'n darparu llefydd y gellir eu defnyddio, sy'n ddiogel, gwydn ac y gellir eu haddasu, ac yn diogelu cymeriad lleol ac arwahanrwydd amgylchedd adeiledig hanesyddol a naturiol Ardal y Cynllun. Bydd yn ofynnol gan y Cyngor fod datblygiad:
 - a. Yn briodol ac yn gwella, ei leoliad o ran ffurf, graddfa, màs, manylion drychiadau a'r defnydd o ddeunyddiau;
 - b. Yn diwallu safonau cymeradwy'r Cyngor o ddarpariaeth mannau agored a gofodau parcio;
 - c. Yn diwallu'r safonau gofynnol o ran hygyrchedd, yn ystyried anghenion pobl o wahanol oeddrannau a gallu yn nyluniad y cynnig;
 - d. Yn ystyried yr effaith ar eiddo ac ardaloedd a chynefinoedd cyfagos gan gefnogi rhywogaethau a ddiogelir;
 - e. Yn ystyried cyfeiriadedd priodol, effeithlonrwydd ynni a'r defnydd o ynni adnewyddadwy yn y dyluniad, gosodiad, deunyddiau a thechnoleg yn unol â NTE/6 'Effeithlonrwydd Ynni a Thechnoleg Adnewyddadwy mewn Datblygiadau Newydd';
 - f. Yn darparu systemau draenio dinesig cynaliadwy i gyfyngu ar ddŵr gwastraff a llygredd dŵr a lleihau perygl llifogydd yn unol â chanllawiau cenedlaethol a Pholisi NTE/8—'Systemau Draenio Cynaliadwy'.
2. Bydd y Cyngor hefyd yn ceisio, lle bo'n briodol:
 - a. Gwella cymeriad lleol yr adeiladau, treftadaeth a mannau agored;
 - b. Darparu cymysgedd cydnaws o ddefnydd, yn enwedig yng nghanol trefi a phentrefi;
 - c. Ymgorffori tirlunio o fewn ac o amgylch y datblygiad fel y bo'n briodol o ran graddfa ac effaith y datblygiad;
 - d. Yn integreiddio gyda llwybrau cyfredol i ddarparu llefydd cysylltiedig sy'n cysylltu â'r ardal ehangach, yn enwedig o ran cyfleusterau cyhoeddus a llwybrau teithio gwyrdd;
 - e. Darparu datblygiadau sy'n cynnig dewisiadau cludiant amgen ac yn hyrwyddo cerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus;
 - f. Creu llefydd diogel drwy fabwysiadu egwyddorion 'dylunio sy'n atal trosedd' i ddarparu goruchwyliaeth naturiol, gwelededd, ac amgylcheddau gyda golau da ac ardaloedd â symudiad cyhoeddus;
 - g. Sicrhau y diogelir nodweddion bioamrywiaeth a'u gwella;
 - h. Ymgorffori ardaloedd a chyfleusterau i reoli gwastraff, storio dŵr glaw, ailddefnyddio dŵr llwyd ac ailgylchu;
 - i. Ystyried Canllawiau Mabwysiadu Ffyrdd yr Awdurdod wrth ddylunio ffyrdd.
3. Bydd y Cyngor yn ceisio cyfraniad o ganran a gytunir tuag at gyfanswm costau'r datblygiad i ddarparu a chomisiynu celf sy'n hygyrch i'r cyhoedd neu waith gwella dylunio yn unol â DP/5 'Isadeiledd a Datblygiadau Newydd' lle bo'n briodol o ran ei leoliad a'i hyfywedd.

6. Dylunio Manwl - Datganiad Dylunio a Mynediad

6.1

Mae'r adran ganlynol yn darparu canllawiau ynglŷn â'r hyn y dylid ei gynnwys yn y Datganiad Dylunio a Mynediad ac yn crynhoi'r materion i'w hystyried dan y pum amcan dylunio (gweler adran 4) ynghyd â'r polisiau CDLI perthnasol i'w hystyried dan bob amcan.

6.2

Gofyniad

Mae Datganiad Dylunio a Mynediad (DDM) yn ofynnol yn ôl cyfraith ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio amlinellol a llawn. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir hebddynt yn ddilys ac ni ellir eu cofrestru nes y cyflwynir DDM. Fodd bynnag mae nifer fechan o eithriadau:

- Gweithrediadau peiranyddol neu fwynol, megis gwaith chwarela;
- Estyniadau i anheddau presennol neu godi adeiladau o fewn cwrtl (gardd) eiddo ar gyfer defnydd domestig preifat, megis garejis, sied, tŷ gwyr;
- Newid defnydd tir neu adeiladau. Ond os bydd angen darparu mynediad i weithwyr neu wasanaethau i'r cyhoedd, bydd angen datganiad ynglŷn â materion mynediad yn unig.

Nid oes angen DDM ar gyfer ceisiadau nad ydynt yn geisiadau cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig (e.e. Ceisiadau yn ymwneud â rheoli hysbysebion, gwaith i goed a effeithir gan orchmynion cadwraeth coed neu storio sylweddau peryglus). Fodd bynnag, efallai y bydd angen DDM ar gyfer ceisiadau cydamserol ar gyfer caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig mewn perthynas â gweithredoedd neu ddefnydd o'r fath.

Nid oes gofyniad hanfodol i gyflwyno DDM gyda cheisiadau i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl. Fodd bynnag, bwriad DDM yw darparu gwybodaeth ynglŷn â datblygiad y cynllun drwy wahanol gamau dylunio ac felly dylai ceisiadau am gymeradwyaeth materion a gadwyd yn ôl gynnwys fersiwn ddiwygiedig o unrhyw DDM a gyflwynwyd gyda'r cais amlinellol i adlewyrchu unrhyw newidiadau ers yr ysgrifennwyd yr un diwethaf.

6.3

Pwrpas

DDM yw adroddiad sy'n cael ei gyflwyno gyda cheisiadau am ganiatâd cynllunio a chydysyniad adeilad rhestredig i ddangos sut y cymhwyswyd y pum amcan dylunio da (gweler adran 4) i gynnig penodol, neu lle na chymhwyswyd y rhain, er mwyn egluro pam.



Llun :Canolfan Ymwelwyr yn arnofio yn Chwarel Brockholes, Gwarchodfa LWT , Preston.

Llun Mynediad Agored yn Hiraethog



Dylid egluro eich casgliadau o bob cam o'r broses ddylunio, lle bo'n briodol, yn y Datganiad Dylunio a Mynediad . Mae'r dair dudalen ganlynol yn amlinellu'r materion y dylid eu hystyried yn eich DDM i ddiwallu'r pum amcan dylunio da.

Mae canllawiau pellach ynglŷn â'r DDM ar gael ar wefan Comisiwn Dylunio Cymru:
<http://dcfw.org/cy/design-and-access-statements-in-wales>

Cynladwyedd Amgylcheddol

6.4 Mae polisiâu cenedlaethol wedi'u darparu ym Mholisi Cynllunio Cymru, TAN5: Cadwraeth Natur a Chynllunio, TAN12: Dylunio, TAN15: Datblygu a Pherygl Llifogydd, TAN16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored, TAN18: Trafnidiaeth a TAN22: Adeiladau Cynaliadwy. Gan ddibynnu ar leoliad y cynnig, dylai'r DDM gyfeirio, lle bo'n berthnasol, at y polisiâu canlynol:

Polisiâu CDLI

- | | |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none">DP/1 Egwyddorion Datblygiad CynaliadwyDP/3 Hyrwyddo Ansawdd Dylunio a Lleihau TroseddDP/4 Meini Prawf DatblyguDP/5 Isadeiledd a Datblygiadau Newydd | <ul style="list-style-type: none">NTE/1 Yr Amgylchedd Naturiol a gweler CCA05: Bioamrywiaeth mewn CynllunioPolisiâu NTE/4 i NTE/10 ar yr Amgylchedd Naturiol |
|--|---|

Gofyniad DP/3 Polisi CDLI

Bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod datblygiad: *'Yn ystyried... Cynefinoedd sy'n cefnogi rhywogaethau a ddiogelir'* *'Yn ystyried cyfeiriadedd priodol, effeithlonrwydd ynni a'r defnydd o ynni adnewyddadwy yn y dylunio, gosodiad, deunyddiau a thechnoleg yn unol â NTE/6 – 'Effeithlonrwydd Ynni a Thechnolegau Adnewyddadwy mewn Datblygiad.'* *'Darparu systemau draenio trefol cynaliadwy i gyfyngu dŵr gwastraff a llygredd dŵr a lleihau perygl llifogydd yn unol â chanllawiau lleol a pholisi NTE/8—'Systemau Draenio Cynaliadwy'* Bydd y Cyngor yn ceisio, lle bo'n briodol: *'Cynnal cadwraeth a gwella nodweddion bioamrywiaeth'* *'Ymgorffori ardaloedd a chyfleusterau i reoli gwastraff, storio dŵr glaw, aildefnyddio dŵr llwyd ac ailgylchu.'*

6.5 Materion i'w datrys

- Sut fydd y datblygiad yn lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon?
- Sut fydd y cynllun yn lleihau'r defnydd o ddŵr a chyfyngu ar effaith dŵr gwastraff ar yr amgylchedd a'r systemau draenio presennol?
- A fydd y datblygiad yn defnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy / lleol neu sydd wedi'u hadfer?
- Sut fydd y datblygiad yn cynnal neu'n gwella cynefinoedd naturiol?
- A yw'r datblygiad yn hyrwyddo'r defnydd effeithiol o dir?
- Sut yr ymdrinnir â'r gwastraff yn ystod y gwaith dymchwel, adeiladu ac wedi hynny? Faint o wastraff fydd yn cael ei gynhyrchu?
- Sut fydd y datblygiad yn addasu i newid hinsawdd?

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl gynigion ar gyfer anheddau newydd yn diwallu'r safon a ddiffinnir yn y Cod Tai Cynaliadwy (CSH). Mae'n rhaid dylunio adeiladau nad ydynt yn rhai preswyl gyda gofod llawr o 1,000m² neu fwy, neu ar safleoedd o 1 hectar neu fwy, i ddiwallu safon ddiffiniedig y Dull Asesu Amgylcheddol Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM). Mae TAN22 yn nodi y dylai'r ymgeiswyr gomisiynu rhag-asesiad, cyn cyflwyno cais cynllunio, i arddangos y disgwylir y bydd y cynnig yn diwallu'r safon CSH neu BREEAM gofynnol.

Dan y ddeddfwriaeth gyfredol, nid oes yn rhaid i'r Rhag-Asesiad ffurfio rhan o'r DDM. Fodd bynnag, mae'n arfer da fod y Rhag-Asesiad yn ffurfio rhan o'r DDM, neu yn cael ei gyflwyno gyda'r DDM. Os yw Rhag-asesiad yn ofynnol yn ôl y polisi cenedlaethol ond nad yw'n cael ei gyflwyno, mae'n debyg y bydd y caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod. Boed angen Rhag-Asesiad neu beidio yn ôl y polisi cenedlaethol, mae'n rhaid i'r DDM ymdrin ag effaith cynladwyedd amgylcheddol, a bydd y Cyngor yn ystyried y rhain wrth lunio penderfyniad ar y cais.

Mae dylunio storfa wastraff mewn datblygiad newydd wedi ei gynnwys yn CDLI34 Storio Gwastraff mewn Datblygiad Newydd.

Llun: Penrhynside
©MJArchitects



Cynladwyedd Amgylcheddol

6.6

Dylid ystyried deunyddiau ac ynni mewnol bob tro. Mae angen newid diwylliant oddi wrth y deunyddiau rhatach gyda lefelau uchel o ynni mewnol o filoedd o filltiroedd o bellter i ddeunyddiau mewnol lleol hyd yn oed os ydynt, yn fyr dymor, yn ddrytach ac yn anoddach eu cael. Bydd galw yn creu cadwyn gyflenwi ddibynadwy ac yn hirdymor bydd costau cystadleuol. Dylai bod ynni adnewyddadwy yng nghraidd unrhyw ddatblygiad yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig lle y mae angen cyflawni newidiadau amlwg.



Yn glocwedd o'r dde:

- Cynllun hydro gyda llwybr pysgod
- Paneli solar domestig ar y tir
- Adeiladau allanol fferm draddodiadol
- Canolfan ymwelwyr â wal derw gwyrdd, turn a theils derw.
- Gorffeniadau waliau cynaliadwy wedi'u paratoi gan Ganolfan Genedlaethol Adeiladu.



Cymeriad

6.7

Mae Polisiâu Cenedlaethol yn cael eu darparu ym Mholisi Cynllunio Cymru, TAN2: Tai Fforddiadwy, TAN5: Cadwraeth Natur a Chynllunio TAN6: Cynllunio ar gyfer Datblygiad Gwledig Cynaliadwy, TAN10: Coed, TAN11: Sŵn, TAN15: Datblygu a Pherygl Llifogydd, TAN16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored, TAN18: Trafnidiaeth, TAN20: Y Gymraeg a TAN22: Adeiladau Cynaliadwy. Gan ddibynnu ar leoliad y cynnig, dylai'r DDM gyfeirio, lle bo'n berthnasol, at y polisiâu canlynol:

Materion i'w datrys

- Sut fydd y datblygiad yn cynnwys tirlunio caled a meddal i ddiogelu a gwella cymeriad y safle a'r ardal gyfagos?
- Sut mae'r raddfa (gan gynnwys uchder, lled a hyd yr adeiladau arfaethedig) yn ystyried y berthynas rhwng y safle a'r eiddo / defnydd tir cyfagos?
- A yw'r gwaith datblygu a'r defnydd arfaethedig yn hyrwyddo defnydd effeithlon o dir ac yn diogelu cymeriad yr ardal a'r harddwch ar gyfer preswylwyr cyfagos?
- Sut mae gosodiad y datblygiad yn integreiddio â'i amgylchoedd ynghyd â sicrhau bod adeiladau, mannau agored a llwybrau mewnol ynddo'n gysylltiedig â'i gilydd ac yn gwneud y gorau o effeithlonrwydd ynni?
- Sut mae'r dyluniad allanol, gan gynnwys y defnydd o ddeunyddiau, triniaethau ffiniau a thirlunio yn sicrhau fod edrychiad y datblygiad yn adlewyrchu, ategu a gwella cymeriad yr ardal?
- Yn achos datblygiad tai, sut mae'r datblygiad yn cyfrannu at amcanion polisiâu tai fforddiadwy'r Cyngor? A fydd tai fforddiadwy'n cael eu darparu ar y safle, gan ddatblygwr ar safle arall, neu drwy swm cymudol? Sut fydd yr ymgeisydd yn sicrhau fod yr anheddau'n parhau'n fforddiadwy? Os nad yw'r datblygwr yn cynnig unrhyw ddarpariaeth (neu ddarpariaeth llai) o dai fforddiadwy, a oes tystiolaeth i gyfiawnhau hyn?
- A fydd graddfa a chymeriad y cynnig yn cael effaith ar gymeriad cymdeithasol y gymuned, gan gynnwys y Gymraeg?
- Os yw'r cais ar gyfer annedd menter wledig, ydi'r raddfa a'r gost yn gymesur ag anghenion a hyfywedd y fenter wledig dan sylw?
- A fydd y cynnig yn cynnwys colli defnydd cyflogaeth presennol (neu flaenorol)? Os felly, a oes cyfiawnhad penodol dros roi caniatâd?

Polisiau CDLI

- DP/1 Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy
- DP/3 Hyrwyddo Ansawdd Dylunio a Lleihau Trosedd
- DP/4 Meini Prawf Datblygu
- DP/5 Isadeiledd a Datblygiadau Newydd
- NTE/1 Yr Amgylchedd Naturiol (gweler CDLI05: CCA Bioamrywiaeth a chynllunio)
- Polisiâu NTE/4 i NTE/6 a NTE/8 i NTE/10 ar Pholisiau Amgylchedd Naturiol CTH/1 i CTH/4 ar Dreftadaeth Ddiwylliannol



Gofyniad DP/3 Polisi CDLI

Bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod datblygiad:

'Yn briodol i, ac yn gwella, ei ardal o ran ffurf, graddfa, màs, manylion y drychiadau a'r defnydd o ddeunyddiau'

'Yn ystyried yr effaith ar eiddo ac ardaloedd cyfagos...'

Bydd y Cyngor yn ceisio, lle bo'n briodol:

'Gwella cymeriad lleol adeiladau, treftadaeth a mannau agored'

'Darparu cymysgedd priodol o ddefnyddiau, yn enwedig yng nghanol trefi a phentrefi.'

'Ymgorffori tirlunio o fewn ac o amgylch datblygiad fel y bo'n briodol o ran graddfa ac effaith y datblygiad.'

“Cymeriad”



Mae cymeriad yn gyfuniad o rinweddau sy'n diffinio lle. Gall fod yn osodiad tref neu fanylion tebyg drwy gyfres o adeiladau.

Prif Lun: Patrwm Anheddiad Llandudno

Cymeriad

6.8 Gall deunyddiau arferol gynnwys:

- Teils Llechi Cymru
- Cerrig lleol
- Plwm
- Rendrad
- Brics
- Gwydr gan gynnwys gwydr wedi'i ailgylchu
- Sinc
- Pren lleol
- Insiwleiddiad gwlân dafad
- Bwrdd ffibr pren
- Corc a deunydd cywarch
- Rendrad calch a mortar



6.9 Gellir defnyddio deunyddiau lleol cynaliadwy o ansawdd mewn dulliau traddodiadol a chyfoes. Gall defnyddio'r deunyddiau'n ofalus olygu eu bod yn cydfynd â'r rhai sy'n fwy traddodiadol, e.e. Ymgorffori toeau gwyrdd, llechi rwber wedi'u hailgylchu, gellir ymgorffori gwydr i leihau'r effaith weledol.

6.10 Mae'r modd y mae gosodiadau datblygiad yn cael eu dylunio yn effeithio ar y modd y gall llefydd weithredu'n gadarnhaol. Mae gosodiadau'n ymdrin â threfn strydoedd, adeiladau, mannau cyhoeddus a phreifat. Mae dyluniad cyfunol yr elfennau allweddol hyn yn effeithio ar lefel gweithgarwch, symudiad a gwyliadwriaeth mewn dull cadarnhaol neu negyddol, sydd yn effeithio ar ddiogelwch lleoliadau.



Cymeriad

6.11

“Mae ein canfyddiad o’r amgylchedd yn dylanwadu ar y modd y byddwn yn ei drin. Dylid archwilio Tirlunio a Dylunio; proses ailadroddol o gwestiynu, swyddogaeth ac ansawdd.”



Gofyniad DP/3 Polisi CDLI

Mae Pwynt 1 b, yn nodi y bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod datblygiad yn:

‘Diwallu safonau cymeradwy’r Cyngor o ran darpariaeth mannau agored a gofodau parcio, gan ddarparu ar gyfer pob oedran, anghenion hygyrchedd ac unigolion anabl.’



Creu mannau agored o ansawdd da mewn datblygiadau newydd—Egwyddorion Cyffredinol

Dylai bod mannau agored mewn datblygiadau newydd wedi’u dylunio’n dda gan ystyried eu defnydd, gosodiad, hygyrchedd a thirlunio. Dylid cymhwyso’r egwyddorion canlynol:

Dylai bod Mannau Agored:

- Yn hygyrch, modd i’r holl breswylwyr eu defnyddio, wedi’u gosod yn dda i fanteisio ar oleuni’r haul a gwyliadwriaeth naturiol.
- Diogelu neu lle bo’n briodol, gwella nodweddion cyfredol y safle, gan gynnwys coed, llwyni, nodweddion dŵr a chynefinoedd bywyd gwylt.
- Ymgorffori llwybrau troed cyfredol, hawliau tramwy cyhoeddus ac mewn rhai achosion yn creu hawliau tramwy newydd i greu gwell cysylltiadau yn y datblygiadau.
- Dylai bod yr holl fannau agored yn ‘ddefnyddiadwy’. Nid oes llawer o werth i ddarnau bychain o dir fel y rhai mewn corneli lletchwith a gallant fod yn anodd eu cynnal a’u cadw.
- Dylid ystyried integreiddio mannau agored o fewn datblygiad. Mae’r ofynnol bod mannau agored yn cyfrannu at gymeriad ardal ac yn ychwanegu at ansawdd cyffredinol dyluniad y datblygiad.

Mannau Chwarae

- Dylai bod mannau chwarae mewn lleoliad sy’n cyd-fynd â’r anheddau, ond ni ddylai achosi niwsans i’r preswylwyr. Dylid darparu parthau clustogi rhwng mannau chwarae a’r eiddo preswyl agosaf at ddibenion harddwch. Mae 20 metr rhwng ffin unrhyw annedd a ffens y mannau chwarae yn ddigonol i’r diben hwn fel arfer. Dylai’r parthau hyn gynnwys gorchuddion tir megis planhigion neu goed â choesyn tenau i gynnal gwyliadwriaeth naturiol.
- Mae’n rhaid ystyried lleoliad a gwelededd mannau chwarae yn ofalus mewn perthynas ag anheddau, ffyrdd, meysydd parcio a llwybrau troed.
- Dylid dylunio offer chwarae plant yn dda a sicrhau ei fod yn addas i bwrpas, gan greu cyfleoedd chwarae ar gyfer babanod a phlant hŷn.

Tirlunio

6.12

Mae cynllun tirlunio llwyddiannus a pharhaus yn fwy tebygol pan ystyrir tirlunio yng nghanm cyntaf y broses o gynllunio a dylunio safle. Dylid cynllunio tirlunio gyda lleoliad unrhyw adeiladau o fewn a ger y safle, yn hytrach na dull o lenwi'r bylchau sy'n weddill.



Cymeriad Tirwedd

Gall dealltwriaeth o gymeriad tirwedd gynorthwyo i sicrhau fod datblygiad wedi'i ddylunio'n dda ac yn integreiddio a'i amgylchoedd, gan gyfeirio at yr ardal leol i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â'i leoli ac agweddau o'r dyluniad megis deunyddiau a manylion pensaernïol a rhywogaethau planhigion. Gall dealltwriaeth dda o safle, ei ymdeimlad o le a chymeriad, gynorthwyo i sicrhau fod datblygiad yn arloesol, bod tirweddau'n cael eu hadfer a'u gwella'n briodol ac yn cael eu cynnal a'u rheoli a bod nodweddion arbennig neu bwysig yn cael eu diogelu.

Ystyriaethau Allweddol:

- Arolwg Safle
- Lleoli strwythurau'n ddoeth
- Gwerthusiad o effaith ar dirwedd
- Gwerthusiad o gymeriad tirwedd
- Integreiddio gyda'r ffurf adeiledig
- Effaith a'r posibilrwydd o wella bioamrywiaeth
- Deunydd a gorffeniad
- Plannu: amseru, maint, rhywogaeth a pharatoi'r tir
- Mynediad a symudiad



I gael rhagor o wybodaeth gweler: CDLI/18 Tirwedd, Mynediad a Dylunio

Bioamrywiaeth

Gall adeiladau a thirwedd sydd wedi'u dylunio'n sensitif gyfoethogi ac adfer cynefinoedd bywyd gwyllt presennol a gwella gwerth ecolegol safleoedd a'r cysylltiad â'u hamgylchoedd.



Dylid ystyried bioamrywiaeth o'r cychwyn cyntaf o'r asesiad safle a'r arolwg i'r camau dylunio ac adeiladu. Dylid caniatáu amserau arolygu cywir fel y gosodir yn CDLI05: Bioamrywiaeth.

Gellir alinio rhwydweithiau gwyrdd gyda rhwydweithiau glas (pyllau, afonydd, ffosydd) i wella cynefinoedd bywyd gwyllt presennol, a darparu harddwch, hamdden a theithio llesol. Dengys safleoedd a ddiogelir o ran cadwraeth natur ar y map cynigion. Mae'r rhain yn cynnwys dynodiadau treftadaeth rhyngwladol a chenedlaethol megis SPA, SAC a SSSI ynghyd a dynodiadau lleol megis Cronfeydd Natur Lleol. Mae rhagdybiaeth gref yn erbyn datblygiad fydd yn effeithio'n andwyol ar safleoedd a ddiogelir.

I gael rhagor o wybodaeth gweler CDLI18: CCA Tirwedd, Dylunio a Mynediad a CDLI05 CCA Bioamrywiaeth a Chynllunio

Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys:

Creu strwythur tirwedd cadarn fel elfen allweddol o ddatblygiadau o bob maint, sy'n dilyn egwyddorion isadeiledd gwyrdd a rhwydwaith werdd yn unol â pholisïau STR/1, STR/4 a CDLI09: CCA Dylunio

Diwallu gofynion strategaeth y Cyngor ar gyfer mannau agored cyhoeddus a darparu gerddi preswyl preifat yn unol â pholisïau CFS/1 a CFS/11.

Cynnal statws cadwraeth y safleoedd a rhywogaethau a ddiogelir, a gwell a chreu cynefinoedd newydd yn unol â pholisïau NTE/1, NTE/3 a NTE/4

Diogelu coed a choetir presennol a darparu coed brodorol newydd yn unol â pholisi NTE/3 a CDLI09: CCA Dylunio.

Integreiddio SUDS i ddatblygiad fel bod eu potensial gweledol, tirlunio a bioamrywiaeth yn cael ei wella yn unol â pholisïau NTE/3 a NTE/8.

Sicrhau bod tirwedd galed a gofodau parcio yn rhan allweddol o'r dyluniad cyffredinol yn unol â pholisïau STR/1, STR2, NTE/8 a LDP09: CCA Dylunio

Mae'n bwysig bod gwybodaeth a gesglir yn yr arolygon yn dylanwadu ar y cynnig terfynol. Dylid cadw nodweddion naturiol presennol sydd o werth yn eu cyd-destun yn hytrach nag mewn elfennau unigol. Anogir integreiddio rheoli cynefinoedd a choridorau gwyrdd i wella bioamrywiaeth a chynorthwyo i liniaru effeithiau newid hinsawdd.

Isadeiledd Gwyrdd a Rhwydweithiau Gwyrdd

Y nod allweddol yw sefydlu fframwaith cadarn o isadeiledd gwyrdd amlswyddogaethol mewn datblygiadau newydd o bob maint a gwella cysylltedd â'r rhwydwaith ehangach o fannau agored, cynefinoedd, llwybrau troed a llwybrau beicio o fewn a thu hwnt i ffin y safle.

Yn ddelfrydol dylai bod rhwydwaith o fannau gwyrdd amlbwrpas yn rhedeg drwy ardaloedd dinesig, ffin anheddiad ac yn cysylltu â chefn gwlad ehangach, gan greu cysylltiadau tirwedd a threflun o ansawdd uchel, cefnogi mynediad newydd a chyfleoedd hamdden, ymgorffori rheoli llifogydd, gwella bioamrywiaeth a chysylltiadau cynefinoedd a hyrwyddo ffordd o fyw iachach. Mae darparu rhwydweithiau o'r fath yn cyd-fynd â'r datblygiad o ofynion Strategaeth Mannau Agored y Cyngor a'r Mesur Teithio Llesol.

Ffurfir rhwydwaith wyrdd pan y cysylltir elfennau o isadeiledd gwyrdd gyda'i gilydd i roi buddion cyfunol ychwanegol.

Gall yr elfennau gynnwys :


- Coridorau gwyrdd
- Cwrs dŵr
- Coetir, rhesi o goed neu llwyni
- Parciau a mannau chwarae
- SUDS
- Toeau gwyrdd
- Llwybrau teithio llesol
- Coed stryd, tirweddau meddal ac ymylon

I gael rhagor o wybodaeth:

Sustrans: www.sustrans.org.uk

CDLI18: CCA Tirwedd, Mynediad a Dylunio

CDLI05: CCA Bioamrywiaeth a Chynllunio



Celf Gyhoeddus

Gall celf gyhoeddus ychwanegu gwerth at ddatblygiad, ar gyfer y rhai sy'n defnyddio'r cynllun a'r ymwelwyr neu'r rhai sy'n teithio heibio. Gall annog balchder dinesig ac ymdeimlad o berchnogaeth yng Nghonwy drwy ddarparu ardaloedd i bobl leol greu celf, er enghraifft mosaig ar ffrynt gwag neu isffordd. Gall ychwanegu amlygrwydd i ddatblygiad a chreu canolbwynt ar gyfer cynllun a'r ardal ehangach. Mae buddion hefyd i ddatblygwyr o ran gwerth masnachol a gwell buddioldeb.

Gofyniad DP/3 Polisi CDLI

Mae Pwynt 3 yn nodi:

'Bydd y Cyngor yn ceisio cyfraniad o ganran a gytunir o gyfanswm costau'r datblygiad i ddarparu neu gomisiynu celf sy'n hygyrch i'r cyhoedd neu waith gwella dyluniad yn unol â DP/5 – 'Isadeiledd a Datblygiadau Newydd' lle bo'n briodol i'w lleoliad a hyfywedd.'




Mae esiamplau o Gelf Gyhoeddus yn cynnwys y canlynol, ond nid yw'r rhestr yn gyflawn:

- Cerflun / Cofadail
- Dodrefn Stryd
- Goleuadau
- Gwaith Brics
- Rheiliau Cerddwyr
- Ramp Mynediad
- Arwyddion
- Gwaith sŵn / clywedol
- Arweddion dŵr
- Penodi artistiaid fel aelodau o dîm dylunio datblygiad neu gynllun
- Comisiwn dros dro neu â therfyn amser (e.e. Arddangosfeydd, cyhoeddiadau, gosodiadau, cyfryngau o'r we a theatr ar y stryd)

Materion Dylunio a Phroses

- Ystyriwch y rhain yn gynnar yn y cynllun - sut fyddai'n cyd-fynd â gweddill y cynllun a'r ardal gyfagos? Sicrhau ei fod wir yn gyhoeddus. A yw'r prosiect yn rhan o'r broses ddarparu neu'r cynnyrch a ddarperir? A yw'n barhaol neu dros dro? A yw yn yr awyr agored neu dan do? A yw wedi'i fewnosod neu'n sefyll ar ei ben ei hun? A yw'n unigol neu mewn grŵp /thema?
- Trafodaeth gynnar rhwng y Cyngor, y datblygwr a'r artistiaid / crefftwyr. Cysylltu gyda budd-ddeiliaid, cytuno ar ddogfennau y dylid eu darparu (gellir ymgorffori hyn yn y DDM)
- Sicrhau bod lleoliad y celf gyhoeddus wedi'i ddatblygu o'r gwerthusiad safle a chyd-destun (Gweler adran 5 y ddogfen hon) boed ar y safle neu oddi ar y safle neu o ganlyniad, fel rhan o broses y cynllun.
- Ymgynghori gyda'r Cyngor a Chyngor Celfyddydau Cymru i nodi cyfleoedd, dulliau o gael cyllid.
- Os yw'n cael ei ddarparu ar y safle, lle yw'r lle gorau i'w roi yn y cynllun? (canolbwynt, mannau o ddiddordeb)
- Arwahanrwydd lleol - Sut mae'r gwaith yn berthnasol i, neu'n gwella, cymeriad a hunaniaeth Conwy? Ystyriwch y dulliau traddodiadol ynghyd â'r datrysiadau dylunio cyfoes. Efallai y bydd angen talu mwy o sylw i Gelf Cyhoeddus mewn mannau sensitif megis Ardaloedd Cadwraeth, ond ni ddylai hyn rwystro ceisiadau i gynhyrchu gwaith cyfoes. Gellir adlewyrchu enwau, traddodiadau, y Gymraeg a diwylliant mewn celf gyhoeddus, boed fel rhan o broses cynllun neu drwy'r cynnyrch terfynol.

Gweler hefyd: Adran 5.15 o TAN 12 ar Gelf Cyhoeddus, a CDLI04: CCA Rhwymedigaethau Cynllunio http://www.conwyartsdirectory.co.uk/index_welsh.asp a <http://www.celfcymru.org.uk/>



Hygyrchedd a Symudiad

Darperir polisïau cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru a TAN18: Cludiant. Yn dibynnu ar leoliad y cynnig, dylai'r DDM, lle bo'n berthnasol, gyfeirio at bolisïau canlynol y CDLI:

- DP/1 Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy
- DP/3 Hyrwyddo Ansawdd Dylunio a Lleihau Trosedd
- DP/4 Meini Prawf Datblygu
- DP/5 Isadeiledd a Datblygiadau Newydd

Polisïau CDLI

- DP/7 Canllaw Cynllunio Lleol (Gweler CCA Safonau Parcio)
- DP/9 Prif Gynllun Bae Colwyn
- Polisïau STR/1 i STR/6 ar Gludiant Cynaliadwy

Amcanion Allweddol:

- Sicrhau yr ystyrir hygyrchedd a symudiad yn gynnar yn y cam dylunio
- Sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer llwybrau trwodd a chysylltiadau tu allan i'r safleoedd datblygu yn ffurfio rhan o'r cynigion datblygu.
- Gwneud y gorau o'r defnydd drwy arwynebau a rennir gan ddefnyddio arwyddion priodol a'r defnydd o ddeunyddiau.

Gofyniad DP/3 Polisi CDLI

Bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod datblygiad:

'Yn diwallu safonau cymeradwy'r Cyngor o ddarpariaeth mannau agored a gofodau parcio'

'Diwallu'r safonau gofynnol o hygyrchedd, gan ystyried anghenion pobl o wahanol oeddrannau a gallu yn nyluniad y cynnig'

Bydd y Cyngor yn ceisio, lle bo'n briodol:

'Integreiddio gyda llwybrau cyfredol i ddarparu ardaloedd wedi'u cysylltu gyda'r ardal ehangach, yn enwedig o ran cyfleusterau cyhoeddus a llwybrau cludiant gwyrdd'

'Darparu datblygiadau sy'n cynnig dewisiadau cludiant amgen ac yn hyrwyddo cerdded, beicio a'r defnydd o gludiant cyhoeddus'



Llun: Ramp mynediad Gerddi Bodnant

Mae astudiaethau achos lleol defnyddiol yn cynnwys y canlynol:

- Gwesty St George's, Llandudno (ramp mynediad)
- HSBC Llandudno (ramp mynediad)
- Gerddi Bodnant, Conwy (ramp mynediad) - uchod
- Llandrillo-yn-Rhos – Upper Rhos Road, Hannover Court – Datblygu a thrawsnewid iard
- Bae Colwyn, fflatiau ar gornel Seaview Road a Bay View Road
- Erskine Road Bae Colwyn, ramp mynediad at yr eglwys

Hygyrchedd a Symudiad

6.17

Materion i'w datrys

- Sut yr ystyrir y polisïau cynllunio yn y darpariaethau o ran mynediad?
- Sut mae'r datblygiad yn sicrhau mynediad hawdd i'r safle ac oddi mewn i'r safle?
- Sut fydd y datblygiad yn datrys problemau gyda threfniadau mynediad cyfredol?
- Sut mae'r datblygiad yn hyrwyddo dewisiadau cludiant cynaliadwy e.e. Oes mynediad o'r safle i gyfleusterau a chludiant cyhoeddus?
- Sut mae'r datblygiad wedi ystyried gofynion parcio a cherbydau gwasanaeth?
- Sut mae'r datblygiad yn darparu cysylltiadau diogel a chlir, i, o ac o fewn y datblygiad, ac yn integreiddio gyda'r cysylltiadau cludiant cyfredol?



- Arwynebau a rennir ar hyd glannau'r afon, Lisbon.

Llawlyfr ar gyfer strydoedd	
• Defnyddio hierarchaeth defnyddwyr yn y broses ddylunio gyda cherddwyr ar ben y rhestr	• Symud ymlaen o hierarchaeth o fathau safonol o ffyrdd yn seiliedig ar lif traffig a/ neu nifer yr adeiladau y teithir iddynt
• Dull cydweithredol o ddarparu strydoedd	• Datblygu mathau o gymeriad stryd yn seiliedig ar leoliad penodol gan gyfeirio at swyddogaethau lle a symudiad pob stryd
• Pwysigrwydd swyddogaeth gymunedol strydoedd fel mannau i gyfathrebu	• Annog arloesi gyda dull hyblyg o drefn strydoedd a'r defnydd o ddeunyddiau lleol, unigryw, gwydn ac y gellir eu cynnal a dodrefn stryd
• Amgylcheddau cynhwysol sy'n cydnabod anghenion pobl o bob oedran a gallu	• Defnyddio systemau archwilio o ansawdd sy'n arddangos sut y bydd dyluniadau yn diwallu amcanion allweddol ar gyfer yr amgylchedd lleol
• Adlewyrchu a chefnogi llinellau dyhead cerddwyr yn nyluniadau rhwydweithiau a'r dyluniadau manwl	• Dylunio i gadw cyflymder cerbydau yn 20mya neu'n is ar strydoedd preswyl oni bai bod rhesymau trechol dros dderbyn cyflymder uwch
• Datblygu prif gynlluniau a pharatoi codau dylunio sy'n eu gweithredu ar gyfer datblygiadau mwy, a defnyddio datblygiadau dylunio a mynediad ar gyfer datblygiadau o bob graddfa	• Defnyddio'r isafswm o nodweddion dylunio priffordd fel bo'r angen fel bod y strydoedd yn gweithredu fel y bo'n briodol
• Creu rhwydweithiau o strydoedd sy'n darparu athreiddedd a chysylltedd i brif gyrchfannau a dewis o lwybrau teithio	

Diogelwch Cymunedol

Mae Polisiâu Cenedlaethol yn cael eu darparu ym Mholisi Cynllunio Cymru a TAN 12: Dylunio. Yn dibynnu ar leoliad y cynnig dylai'r DDM gyfeirio, lle bo'n briodol, at y polisiâu canlynol:

Polisiâu CDLI

- DP/1 Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy
- DP/3 Hyrwyddo Ansawdd Dylunio a Lleihau Trosedd
- DP/4 Meini Prawf Datblygu
- DP/5 Isadeiledd a Datblygiadau Newydd
- Polisiâu CFS/7, CFS/8 a CFS/11 ar Gyfleusterau Cymunedol
- Polisiâu NTE/1, NTE/4 a NTE/5 ar Amgylchedd Naturiol
- Polisiâu CTH/1 i CTH/4 ar Dreftadaeth Ddiwylliannol
- Gweler hefyd CDLI01: CCA Canllaw Dylunio i Berchnogion Tai

Gofyniad DP/3 Polisi CDLI

Bydd y Cyngor yn ceisio, lle bo'n briodol:

'Creu llefydd diogel drwy fabwysiadu egwyddorion 'Dylunio i atal trosedd' i ddarparu gwyliadwriaeth naturiol, gwelededd ac amgylcheddau â golau da a mannau o symudiadau cyhoeddus.'

Yr amcanion allweddol yw lleihau:

- Trosedd
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Ofn trosedd

Gellir ymdrin â hyn drwy sefydlu egwyddorion dylunio, gosodiad a thirlunio yr amgylchedd adeiledig a naturiol sy'n creu:

- Amgylchedd diogelach
- Cynyddu'r risg o ganfod gweithgareddau troseddol a gwrthgymdeithasol
- Ei gwneud yn anoddach cyflawni trosedd

Materion i'w Datrys

- Sut fydd gosodiad y safle yn sicrhau bod digon o wyladwriaeth naturiol o ardaloedd cyhoeddus megis mannau agored, meysydd parcio neu lwybrau troed?
- Ydi'r datblygiad yn gwella diogelwch cymunedol a diogelwch unigolion drwy leihau gwrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddiau o dir?

Diogelwch Cymunedol



Mae arferion dylunio trefol da yn rhan allweddol o ddarparu llefydd diogel a deniadol.

Mae deall cyd-destun yn allweddol i lwyddiant cynnig datblygu. Mae dadansoddi materion cyd-destunol yn hysbysu'r dylunydd o bryderon allweddol fydd yn effeithio ar ddiogelwch y cynllun newydd a'r ardal gyfagos.

Gwybodaeth Bellach
Menter 'Secured by Design'
www.securedbydesign.com

Gweler hefyd: CDLI03: CCA Diogelwch Wyneb Siop

6.19

Senarios Datblygu

Mae'r adran ganlynol yn ategu at y materion a godwyd yn yr adrannau blaenorol, yn enwedig y canllawiau ynglŷn â materion i'w hystyried yn y DDM. Dylid ei ddarllen fel canllaw ychwanegol wrth ystyried math penodol o ddatblygiad, boed yn ddatblygiad preswyl, masnachol, diwydiannol neu amaethyddol.

6.20

Disodli Anheddau:

- Gan ymateb i gyfradd, maint, màs ac ôl troed yr adeilad blaenorol
- Dylai'r adeilad newydd fod o raddfa ac effaith debyg
- Dylai estyniadau, adeiladau newydd osgoi clwstwr amlwg; toriadau rhwng yr elfennau adeiledig (gweler CCA Canllaw Dylunio i Berchnogion Tai)
- Gall nodweddion allan o'u lle wanhau cymeriad ardal.
- Annog dylunio arloesol ond angen ystyried maint, graddfa, ôl troed ac effaith ar gymeriad ardal a'r dirwedd ehangach yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Osgoi datblygiad cul-de-sac dwysedd isel gan ei fod yn ddefnydd aneffeithiol o dir adeiladu prin a hefyd nid yw'n adlewyrchu gosodiad hanesyddol trefi a phentrefi Conwy.



Llun: Gosodiad lle bo'r briffordd yn cael lle blaenllaw gyda mathau tai safonol



Llun: Y materion allweddol yn y llun hwn yw dwysedd uchel yr unedau sefydlog sydd wedi'u lleoli'n wael. Sylwer: dim tirlunio yn y safle, dim sgrin nac amddiffynfeydd a heb lawn werthfawrogi prosesau arfordirol a heb ddarparu ar gyfer achosi materion cynnal a chadw parhaus megis fandaliaeth a difrod i'r carafannau a thynnu tywod o NCR5.



Llun – Golygfa lle bo'r briffordd yn cael lle blaenllaw gyda thai 'bocs' ar wahân.

6.21

Grwpiau Adeiladu yng Nghefn Gwlad:

- Golygfeydd o fewn cyd-destun y dirwedd ehangach a sicrhau ymylon deniadol
- Dwysedd - pwysleisio ar o leiaf 30 dph gan fod grwpiau adeiladu gwledig fel arfer yn rhai agosach at ei gilydd.
- Ffaffrio cynlluniau Ynni Adnewyddadwy yn enwedig cynlluniau gwresogi ar gyfer nifer o adeiladau

Mae cynnig datblygiad sydd wedi'i lunio'n dda yn ymateb yn dda i'w gyd-destun. Mae rhai enghreifftiau o'r gorffennol wedi dangos ychydig neu ddim cydnabyddiaeth o'r cyd-destun gan greu datblygiadau arunig a mewmol sy'n cyfrannu ychydig iawn at ddiogelwch pobl ac eiddo.

6.22

Mae'r materion dylunio canlynol wedi'u canfod yng Nghonwy, ond nid ydynt o reidrwydd i'w gweld yng Nghonwy yn unig:

- Yn aml ymddengys bod datblygiad newydd yn lleihau ansawdd a hygyrchedd y parth cyhoeddus ac yn erydu'r cymeriad lleol a'r arwahanrwydd yn raddol.
- Yn aml mae hyn o ganlyniad i gynlluniau sy'n dilyn safonau dylunio priffyrdd llym ac nid ydynt yn ystyried materion megis patrymau strydoedd lleol, mathau unigol o adeiladau a deunyddiau
- Mae diffinio a diwallu 'Dylunio Da' yn dibynnu ar safonau rhagnodol, neu'n cael ei ddiystyru fel mater o farn neu chwaeth.
- Mae dyluniad datblygiadau diweddar wedi rhoi lle blaenllaw i geir, boed drwy or-ddibynnu ar ffurf cul-de-sac sy'n lleihau dewisiadau ffyrdd a chynyddu traffig ar y ffyrdd mynediad, neu yn darparu meysydd parcio mawr sy'n cymryd lle blaenllaw yn y dirwedd.

Senarios Datblygu

Masnachol a Diwydiannol

- Cymhwysedd a hyfywedd - hyblygrwydd y drefn fewnol yn galluogi newidiadau yn y dyfodol os oes angen ac yn caniatáu gorffeniadau allanol newidiol.
- Lleihau effaith grwpiau mawr drwy integreiddio adeiladau'n ofalus, ardaloedd gwasanaeth, mynediad a pharcio, arwyddion a goleuadau.
- Tirlunio- cynnwys gofod realistig ar gyfer cynllun tirlunio, gan sicrhau nad yw'n cael ei leihau'n raddol drwy ailddatblygu ac estyniadau. Dylai'r deunyddiau fod o ffynhonnell leol lle bo modd.
- Dylid rhannu ardaloedd parcio mawr yn rhannau llai



Parc Busnes Abergele

- Safle â defnydd cymysg a chyflogaeth pwysig gydag ardal o adfywio strategol.
- Safle gerllaw wal rhestredig Gradd 1; mae angen ystyried hyn ond ar yr un pryd mae'n rhaid i ddyluniad yr adeilad fod yn briodol amlwg er mwyn nodi mynedfa'r parc busnes.
- Mae'r datrysiad dylunio wedi cyfuno cymysgedd o ddeunyddiau o'r adeiladau cyfagos fel ei fod yn cyd-fynd â nhw.
- Adeilad yn cynrychioli 'pafiliwn' gyda diddordeb ar y pedair ochr
- Mae'r dewisiadau dylunio yn cynnwys codi uchder y bondo ar y to pili-pala, rendrad neu blinth carreg ar y drychiad deheuol, a chyflwyno 2 neu 3 ffenestr gul, gan ddisodli'r paneli cladin llwyd llorweddol ar y drychiad deheuol gyda rendrad llwyd neu wyn a chyflwyno paneli cladin o dan y bondo.

Esiamplau:

- Mae arwynebedd toeau llai yn cael llai o effaith weledol
- Deunyddiau, syml, meddal.
- Wedi alinio ag adeiladau a ffiniau eraill
- Integreiddio Ynni Adnewyddadwy yn y cam dylunio.
- Ystyried tirlunio amgylchynol o'r cychwyn cyntaf.

Isod: Travelodge, Bae Colwyn



Senarios Datblygu

6.24

Syniadau creadigol i aildddefnyddio adeiladau



Llun: Yn aml gadewir capeli ac eglwysi yn wag ond maent yn cynnig gofod gwych os ydynt yn cael eu trin yn briodol a defnydd priodol.

Dylai Trawsnewid ysguboriau ac adeiladau allanol:

- Gadw'r cymeriad e.e. Drysau, agoriadau
- Ddefnyddio gorffeniadau allanol cynaliadwy ag effaith isel.
- Edrych ar yr ardal leol i sefydlu palet dylunio / nodweddion cyffredin.
- Defnyddio deunyddiau tebyg wrth adfer adeiladau.



Am resymau amgylcheddol yn unig, dylai bod aildddefnyddio adeiladau cyfredol yn effeithiol yn flaenoriaeth fyd-eang. Mae disodli adeilad yn golygu buddsoddiad sylweddol o ynni; bydd yr ynni yn yr hen adeilad yn cael ei golli, a defnyddir ynni pellach i'w ddymchwil. Yna mae'n rhaid ychwanegu cost deunyddiau (gan gynnwys cludiant) ac adeiladu'r adeilad newydd.

Mae'n hynod hysbys fod 'ynni'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu deunyddiau megis brics, sment a metelau a'u dosbarthu. Mae dros 90 y cant o'r mwynau nad ydynt yn ynni ym Mhrydain yn cael eu defnyddio i gyflenwi deunyddiau i'r diwydiant adeiladu, ond eto mae dros 70 miliwn tunnell o ddeunyddiau adeiladu a dymchwil a phridd yn wastraff bob blwyddyn' (Adroddiad Uned Perfformiad ac Arloesi, Cynhyrchiant Adnoddau 2000). Mae hyn yn gyfystyr â 24 y cant o'r holl wastraff a gynhyrchir yn y DU.

Felly byddai'n rhaid i adeilad newydd fod yn llawer mwy o effeithlon o ran ynni na'r hen un er mwyn gallu cydbwysu'r gymhariaeth hon dros gyfnod eithaf byr. Fel arfer mae'n fwy effeithlon o ran ynni i gadw'r stoc adeiladu gyfredol, yn enwedig pan fo ei berfformiad ynni yn naturiol dda drwy'r defnydd o ddeunyddiau naturiol, neu lle y gellir ei wella'n hawdd. Mae cadw hen adeiladau'r sir, a cheisio gwella eu perfformiad ynni yn hytrach na'u disodli, yn cydymffurfio â chadwraeth treftadaeth ond hefyd mae'n cael ei ystyried yn ddatblygiad cynaliadwy.

Wrth ystyried dymchwil eiddo i ganiatáu datblygiad mae'n rhaid i'r penderfyniadau fod yn seiliedig ar werthusiad gofalus, gan ystyried:

- Ynni sydd wedi'i ymgorffori yn yr hen adeilad, a'i gostau ynni oes gyfan
- Costau unrhyw welliannau i gynyddu effeithlonrwydd ynni'r hen adeilad
- Arwyddocâd diwylliannol a chymdeithasol yr adeilad cyfredol
- Costau ynni oes gyfan yr adeilad newydd arfaethedig (gan gynnwys yr ynni a ddefnyddir i ddymchwil ac ail-adeiladu)
- Cynaliadwyedd yr adeilad newydd (o ran ynni a deunyddiau)
- Hyd oes tebygol a gwydnwch yr adeilad newydd
- Cymhwysedd yr adeilad newydd ar gyfer gwelliant ynni yn y dyfodol



Lluniau ar y dde:
Penseiri: Communion Design
Llun: Infinity Unlimited

Datrysiadau Dylunio

Drwy nodi tystiolaeth o fandaliaeth, gweithgarwch troseddol posibl a gwirioneddol a achoswyd gan ddatrysiadau dylunio gwael a drwy ystyried yr ystyriaethau canlynol bydd modd hysbysu a chynorthwyo i lunio penderfyniadau dylunio olynol fydd yn cael effaith bositif ar drosedd, ofn trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

1. Dadansoddi patrymau presennol ac ymgorffori patrymau newydd o symudiad ar gyfer cerdded, beicio, cludiant preifat a chyhoeddus sy'n cynyddu'r gweithgarwch mewn ardaloedd cyhoeddus.

“Mae pobl yn teimlo’n fwy diogel lle mae gweithgarwch”

2. Asesu dulliau o gynyddu goruchwyliaeth naturiol o eiddo, strydoedd a gofodau cyhoeddus.

“Mae pobl yn teimlo’n fwy diogel pan fydd gyrwyr, preswylwyr a defnyddwyr eraill yn gallu eu gweld”

3. Asesu pa mor hygyrch yw cyfleusterau cymunedol a darpariaethau lleol ar gyfer y defnyddwyr presennol a defnyddwyr newydd.

“Bydd cyfleusterau lleol hygyrch yn annog mwy o ddefnydd ac yn creu mwy o ymdeimlad o gymuned”

4. Asesu topograffeg, tirwedd ac ecoleg allai herio cymhwysedd egwyddorion diogelwch cymunedol

“Mae datblygiadau sy’n ymateb i nodweddion naturiol ac yn gweithio gyda’r tir yn aml yn creu dyluniadau arloesol sy’n fwy cadarn.”

5. Dewis cymysgedd o ddefnydd tir sy’n cyd-fynd â’r defnydd tir cyfagos.

“Gall amrywiaeth o ddefnydd annog mwy o weithgarwch mewn adeiladau a mannau cyhoeddus dros gyfnodau hirach gan gynyddu goruchwyliaeth oddefol a gweithredol y mannau hyn.”

Trafod Dylunio

- Cyngor cyn cyflwyno cais - trafodaeth gynnar ac agored; datrys unrhyw wrthdaro’n gynnar; darparu system gynllunio’n gyflymach.
- Gwasanaeth adolygu dyluniad gyda Chyngor Dylunio Cymru ar gyfer cynigion mwy neu rai cymhleth.

Dogfen Dylunio	Disgrifiad	Defnydd CDLI Conwy	Esiamplau
Briff Datblygu Safle	I hysbysu datblygwyr a phartion eraill sydd â diddordeb o gyfyngiadau’r safle a chyfleoedd a’r math o ddatblygiad a ddisgwylir neu a anogir yn unol â’r polisi cynllunio a dylunio perthnasol.	Polisi DP/7: Bydd y Cyngor yn paratoi Briffiau Datblygu ar gyfer safleoedd tai newydd o 50 annedd neu fwy a safleoedd cyflogaeth o 5 hectar neu fwy	Dim enghreifftiau diweddar yng Nghonwy.
Prif Gynlluniau a Gwerthusiadau Cymunedol	Dogfen sy’n egluro sut y bydd safle neu gyfres o safleoedd yn datblygu a sut y gweithredir y cynigion o ran egwyddorion (defnydd tir), cost a chyfnodau. Mae’r rhan fwyaf o’r Cynlluniau’n cael eu harwain gan y Cyngor, fodd bynnag, efallai y bydd datblygwyr neu grwpiau cymunedol yn cynnal ymarfer tebyg.	Polisi DP/8: Bydd Cynlluniau neu Werthusiadau Cymunedol yn cael eu cefnogi yn amodol ar ddiwallu canllawiau a pholisïau’r CDLI a rhai cenedlaethol.	Gweler Canllaw Cynllunio Atodol CDLI10 Prif Gynllun Bae Colwyn. Ymgynghoriad diweddar ar Weledigaeth Llanrwst.
Canllaw Dylunio	Mae canllawiau dylunio yn darparu cyngor ymarferol ar amrywiaeth o destunau dylunio. Bydd canllaw dylunio yn ategu at ganllaw cynllunio lleol a chenedlaethol yn y cyd-destun dylunio lleol.	Polisi DP/7: Bydd y Cyngor yn paratoi canllawiau ychwanegol ar ffurf CCA i ddarparu rhagor o fanylion ynglŷn â pholisïau a chynigion yn y CDLI.	Gweler CDLI1 Canllaw Dylunio i Berchnogion Tai sy’n cyd-fynd â’r ddogfen hon. Dogfennau arfaethedig yn y dyfodol ar gyfer datblygu mewn amgylcheddau hanesyddol.
Cod Dylunio	Dogfen sy’n egluro sut y dylid gosod polisi a chanllawiau dylunio a chynllunio ar safle yn fanwl a gyda sgiliau lefel uchel.	Efallai y bydd Codau Dylunio’n cael eu cynnwys fel rhan o’r briffiau datblygu neu gynlluniau lle bo rhagor o fanylion yn briodol.	Dim esiamplau yng Nghonwy.

Datrysiadau Dylunio

Adeilad Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llandudno

- Datblygiad swyddfa mawr gyda chyfleusterau ategol a pherthnasol eraill. Mae'r adeilad yn cynnwys tri bloc swyddfa sy'n rhedeg o ddwyrain i orllewin y safle. Maent wedi'u cysylltu drwy atriwm rhannol agored yng nghefn yr adeiladau.
- Mae'r deunyddiau allanol yn gymysgedd o gladin llechi lleol (Penrhyn) a chopr â rhwd gwyrdd. Mae'r adeiladau yn llawer mwy o ran graddfa na'r eiddo preswyl cyfagos ac mae'n rhan amlwg o'r stryd wedd. Mae'n ffurfio nodwedd ddominyddol (tirnod) yn yr ardal ac mae'n weladwy yn enwedig o'r draffordd gyfagos.
- O ran ei ymddangosiad gweladwy, mae'n ymddangos fel datblygiad swyddfa modern wedi'i osod yn dda yn y dirwedd ac yn ddigon uchel i fanteisio ar y golygfeydd sylweddol i'r de a'r gorllewin tuag at Gonwy ac Eryri.



- Mae'r dyluniad wedi ymgorffori nifer o egwyddorion cynaliadwyedd ac mae ganddo ddull 'dylunio goddefol' er mwyn darparu datblygiad cynaliadwy ac mae elfennau megis ffenestri wedi'u gosod i sicrhau'r isafswm o gysgod yr haul, awyru llif croes naturiol oherwydd lled y swyddfeydd, mesurau ynni adnewyddadwy ac ynni isel megis boeler biomas, casglu dŵr glaw fel dŵr llwyd i'w ddefnyddio yn y toiledau, paneli gwres yr haul a phwmp gwres yn y ddaear.
- Mae'r draeniau yn defnyddio egwyddorion System Ddraenio Trefol Cynaliadwy sy'n ddull cynaliadwy cydnabyddedig o waredu gwastraff.
- Mae'r cynllun wedi cynnwys egwyddorion cynaliadwyedd ac yn adeilad dominyddol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau lleol (llechi/copr).
- Adroddwyd y cynllun i Gomisiwn Dylunio Cymru oedd yn cefnogi egwyddor y cynllun. Roedd y sylwadau'n cynnwys defnyddio dull 'saib ac adolygu' ac ail-gaffael i gadw rheolaeth ansawdd, integreiddio celf gyhoeddus yn y dyluniad, adolygu strategaeth y dirwedd i sicrhau nad yw'r fynedfa yn rhoi lle blaenllaw i ofodau parcio ceir.

7. Asesu Dylunio mewn Ardaloedd Sensitif

7.1

Mae dylunio da mewn Ardaloedd Cadwraeth a lleoliadau hanesyddol yn golygu llawer mwy nag ymddangosiad allanol ac estheteg. Dylai bod datblygiadau yn yr ardaloedd sensitif hyn yn nodi ac yn ymdrin â'r meini prawf canlynol:

- Cymeriad a chyd-destun (arwahanrwydd lleol)
- Treftadaeth Naturiol
- Cysondeb
- Tir caeedig
- Amrywiaeth
- Crynoder
- Eglurder
- Hygyrchedd
- Parth Cyhoeddus
- Cymhwysedd

7.2

Ffactorau Dylunio Allweddol

- Wedi derbyn caniatâd yn 2004 i drawsnewid uned adwerthu, sinema a fflat yn wyth fflat gan gadw tair uned siop ar y llawr gwaelod.
- Ail-ddefnydd cadarnhaol a gwell adeilad pwysig sy'n amlwg yn y strydlun
 - Mae'r dyluniad yn gwella Ardal Gadwraeth Penmaenmawr
 - Cadw a gwella canopïau traddodiadol ar flaen y siopau sy'n gwella'r strydlun
 - Lledu mynediad i'r cefn i ddarparu mynediad i ofodau parcio ceir
 - Trafodaethau dylunio yn ystod y cam cyflwyno cais yn cynnwys gostwng ffenestri ar y drychiad cefn



Mae angen ystyried dyluniad adeiladau newydd, neu estyniadau, fydd yn sefyll ochr yn ochr ag adeiladau hanesyddol yn ofalus iawn. Yn gyffredinol mae'r well nad yw'r hen adeiladau'n cael eu gadael ar wahân, ond eu bod yn rhan allweddol o fyw a gweithio yn y gymuned. Gellir gwneud hyn, ar yr amod bod yr adeiladau newydd yn cael eu dylunio'n ofalus i barchu eu lleoliad, gan ddilyn egwyddorion pensaernïol allweddol o ran graddfa, uchder, maint ac aliniad, a'r defnydd o ddeunyddiau priodol. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i'r adeiladau newydd gopïo'r hen rai yn fanwl.

Mae rhai o'r strydoedd diddorol yn ein trefi a'n pentrefi yn cynnwys amrywiaeth o arddulliau adeiladau, deunyddiau, a dulliau adeiladu, o wahanol gyfnodau, ond gyda'i gilydd maent yn ffurfio grŵp cytûn.



Safle 'Surf Snowdonia' yn Nolgarrrog (delwedd)



Chwith: Uned adwerthu ym Mhorthaethwy. Gwneud y mwyaf o'r gofod bychan.

Y Ffatri, Bryn Road, Llanfairfechan



Cyn-ffatri (cyn ei thrawsnewid)



Cyn-ffatri (ar ôl ei thrawsnewid)

Ffactorau Dylunio Allweddol

- Lleoliad o fewn yr ardal gadwraeth
- Trawsnewid cyn ffatri yn bedwar fflat
 - Adeilad wedi'i addasu yn y gorffennol
 - Siâp a llinell to traddodiadol
 - Pwyslais cryf ar adlewyrchu swyddogaeth hanesyddol yr adeilad
- Haenau dur rhychiog ar gyfer y to
 - Adnewyddu'r metel cyfredol ar y ffenestri gan fod eu steil yn arddull 'Crittle' sy'n rhoi steil y cyfnod i'r adeilad
 - Rhoi paent keim ar y cerrig mân

8. Gwerth Dylunio Da

8.1

- Mae pob datrysiad dylunio llwyddiannus yn dibynnu ar ganiatáu amser i gyflawni dadansoddiad safle trylwyr a gwerthusiad cymeriad gofalus o'r cyd-destun.
- Mae'r adeiladau gorau o ganlyniad i ddeialog creadigol rhwng y pensaer, cleient, awdurdod cynllunio lleol ac eraill; mae trafodaethau cyn cyflwyno cais yn hanfodol
- Gall yr awdurdod cynllunio lleol ac ymgynghorai eraill fynnu pensaernïaeth dda a chynorthwyo i'w ddarparu
- Dylai safleoedd anodd gynhyrchu pensaernïaeth dda, ac nid ydynt yn esgus dros beidio â'i ddarparu
- Gyda sgil a gofal, mae modd cynnwys defnyddiau modern mawr o fewn y lleoliadau hanesyddol
- Gall safonau amgylcheddol uchel gynorthwyo i gynhyrchu pensaernïaeth dda
- Nid yw sensitifedd y cyd-destun a'r defnydd o ddeunyddiau traddodiadol yn anghydnaws â phensaernïaeth gyfoes
- Nid yw dylunio da yn gorffen yn y fynedfa, ond yn ymestyn i'r mannau cyhoeddus tu hwnt i'r adeilad
- Nid oes yn rhaid i dai dwysedd uchel gynnwys adeiladu'n uchel neu amharu ar y graen trefol a gall fod yn hynod lwyddiannus yn fasnachol
- Gellir cynhyrchu pensaernïaeth lwyddiannus naill ai drwy ddilyn rhagesiamplau, drwy eu haddasu neu drwy gyferbynnu â hwy
- Mewn cyd-destun amrywiol efallai y byddai adeilad cyfoes yn llai mewnwthiol yn weledol nag un sydd wedi methu â dilyn rhagesiamplau hanesyddol

- Mae dylunio da yn ychwanegu gwerth at ddatblygiad arfaethedig ac i'r man y'i lleolir. Bydd pobl yn defnyddio a gwerthfawrogi'r llefydd hyn.
- Gall proses ddylunio clir a llawn ystyriaeth (gweler adran pump) osgoi oedi, datrys gwrthdaro a chynyddu hyder. Gall nifer o wahanol asiantau dderbyn buddion yn y broses ddylunio.



Uchod: Caffi NT Anglesey Abbey a VC, Caergrawnt.

Gall dylunio gwael greu effaith negyddol ymhell ar ôl cwblhau'r cynllun. Gall yr effeithiau amrywio o rai amgylcheddol (arferion adeiladu yn creu llefydd gwael), i rai economaidd (costau ychwanegol o ran ynni, cynnal a chadw a rheoli) i ffactorau cymdeithasol (y rhai sydd wedi dylunio'r lle a'r rhai sy'n ei ddefnyddio) enw da, costau (amser ac arian).

8.2

Materion yn ymwneud â chostau

- Nid oes yn rhaid i ddylunio da gostio mwy, bydd yn aml yn arbed aria: bydd y dyluniad gorau â phris uwch i ddechrau ond bydd yn ad-dalu'r buddsoddiad nifer o weithiau
- Gellir derbyn costau economaidd drwy leihau costau hirdymor o ran defnydd o ynni, cynnal a chadw, diogelwch a rheoli lle neu adeilad.
- Mae dylunio canolig yn economaidd wael ac yn esgeuluso'r amgylchedd
- Gall buddsoddiad cynnar, megis penodi pensaer, olygu osgoi costau ychwanegol yn y dyfodol drwy wallau gweithredu, effeithlonrwydd a dylunio.

Gwerth Economaidd Dylunio Da	Gwerth Amgylcheddol Dylunio Da	Gwerth Cymdeithasol Dylunio Da
• Gall gwerthoedd cyfalaf a rhent gynyddu • Lleihau costau gweithredu (defnydd oes) • Effaith datblygiad ar ddelwedd a pherfformiad economaidd ardal	• Amgylchedd adeiledig wedi'i ddylunio'n well • Diogelu a / neu wella adnoddau naturiol • Effeithlonrwydd ynni a lleihau llygredd e.e. Colli ynni oherwydd dyluniad adeilad	• Effaith uniongyrchol (defnyddwyr) ac anuniongyrchol (rhaf sy'n galw heibio; unigolion eraill yn yr ardal) ar hunaniaeth • Diogelwch cymunedol drwy ddylunio gofalus. Ymchwil wedi dangos y bydd cymdogaeth sydd wedi'i dylunio'n dda yn elwa o lai o droseddau a gwerthoedd tai uwch. • Gwella mynediad a symudiad—eglurder • Effaith ar ddefnyddwyr, er enghraifft mae buddion posibl o ran iechyd o ganlyniad i'r uchod (hefyd, mae ymchwil wedi dangos y bydd ysbytai sydd wedi'u dylunio'n dda yn cynorthwyo cleifion i wella'n gyflymach)

Ffynhonnell: wedi'i addasu o Places Matter (2009) a CABE (2002)

9. Geirfa

Hygyrchedd: gallu pobl i symud o gwmpas ardal a chyrraedd llefydd a chyfleusterau. Mae hyn yn cynnwys symudiad i, o ac o fewn safle neu ardal.

Cyfanswm: nifer a /neu ofod llawr adeiladau arfaethedig.

Edrychiad: yr agweddau o adeilad neu le o fewn safle neu ardal sy'n penderfynu ar ymddangosiad gweledol yr adeilad neu'r lle (gan gynnwys ffurf adeiledig allanol, pensaernïaeth, nodweddion / addurniadau, deunyddiau, lliw a gwead).

Elfennau / nodweddion adeilad: drysau, ffenestri, cornis, a nodweddion sy'n cyfrannu at edrychiad cyffredinol yr adeilad.

Llinellau adeiladau: y llinell sy'n cael ei ffurfio gan flaen yr adeiladau ar hyd y stryd.

Amgylchedd Adeiledig : y rhan honno o'r amgylchedd sy'n cynnwys adeiladau neu strwythurau a wnaed.

Swmp: effaith gyfunol y trefniant, cyfaint a siâp yr adeilad.

Cymeriad: cyfuniad o rinweddau sy'n diffinio safle neu ardal.

Gwerthusiad Cymeriad: nodi nodweddion ffisegol gwahaniaethol safle neu ardal (e.e. Topograffeg, cymeriad tirwedd, ffurf datblygu, pensaernïaeth, deunyddiau adeiladu, patrymau defnydd tir).

Cysylltiadau: y modd y mae gosodiad yn cyfrannu at fframwaith o lwybrau sy'n cysylltu, gofodau a chyrsiau dwr.

Cyd-destun: nodweddion a lleoliad yr ardal lle y lleolir y datblygiad.

Gwerthusiad Cyd-destun: Dadansoddiad manwl o nodweddion safle neu ardal (e.e. Defnydd tir, amgylchedd adeiledig a naturiol a nodweddion cymdeithasol a ffisegol). Dylai gwerthusiad nodi cyfleoedd a chyfyngiadau'r safle.

Dwysedd: nifer yr adeiladau mewn ardal benodol o dir.

Datganiad Dylunio a Mynediad: dogfen ysgrifenedig sy'n gweithredu fel offer cyfathrebu sy'n egluro sut yr ystyriwyd amcanion dylunio da o ddechrau'r broses ddatblygu.

Effeithlonrwydd Ynni: i ba raddau y mae'r defnydd o ynni'n cael ei leihau drwy'r modd yr adeiladir a threfnir yr adeiladau ar y safle.

Cynladwyedd Amgylcheddol: ymgorffori mesurau i leihau effaith amgylcheddol y datblygiad a lleihau'r galw am ynni, dŵr a deunyddiau a chreu gwastraff.

Dylunio Cynhwysol: datrysiadau dylunio sy'n darparu mynediad i'r amrywiaeth ehangaf o bobl.

Tirwedd: Cymeriad ac edrychiad y tir (e.e. Siâp, ffurf, topograffeg, ecoleg a'r nodweddion naturiol).

Dylunio Tirwedd: y modd y bydd y tir yn cael ei drin (gan gynnwys tirlunio caled a meddal).

Tirlunio: triniaeth tir gyda'r diben o wella neu ddiogelu harddwch safle neu ardal lle y lleolir y datblygiad (e.e. Sgrinio, plannu, creu teras, a gosod gerddi).

Gosodiad: y modd y gosodir yr adeiladau, llwybrau a mannau agored mewn perthynas â'i gilydd.

Eglurder: i ba raddau y gellir deall a theithio drwy'r lleoliad yn hawdd. Mae hyn yn cynnwys patrymau strydoedd, golygfeydd a thirnodau sy'n cynorthwyo gyda chyfeiriadaeth.

Arwahanrwydd Lleol: rhinweddau cymdeithasol a ffisegol sy'n benodol i ardal, yn cyfrannu at gymeriad ardal a'i 'ymdeimlad o le'.

Màs : effaith gyfunol uchder, swmp a graddfa adeilad.

Man Agored: yn ei ystyr ehangaf mae hyn yn cynnwys yr holl dir sydd heb ei ddatblygu a chefn gwlad.

Parth Cyhoeddus: yr holl ofod rhwng adeiladau, strydoedd, llwybrau troed, llwybrau, sgwariau a pharciau sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

Graddfa: maint a dimensiynau'r datblygiad ei hun a'i berthynas gyda'i amgylchoedd. Mae hyn yn cynnwys uchder, lled, hyd a màs yr adeiladau neu rannau o'r adeiladau a sut y gwelir yr adeiladau mewn perthynas â'u hamgylchoedd.

Strydlun: edrychiad stryd. Mae hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau perthynol megis y ffurf, graddfa a chyflwr yr adeiladau ac ehangder y gofod agored.

Adeiladau Cynaliadwy: adeiladau gydag effaith amgylcheddol ac allyriadau carbon isel drwy rinwedd eu dyluniad a'r deunyddiau.



Datblygiad Cynaliadwy: datblygiad sy'n diwallu anghenion presennol gan geisio caniatáu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol hefyd.

Deunyddiau Cynaliadwy: Deunyddiau gydag effaith amgylcheddol isel, llai o fewnbwn ynni, wedi'u derbyn o ffynhonnell gynaliadwy a'r defnydd o ddeunyddiau sydd wedi'u defnyddio eisoes, wedi'u hailddefnyddio a'u hailgylchu.

Topograffeg: nodweddion arwyneb tir (gan gynnwys tirwedd, graddiant, siâp a llystyfiant).

Treflun: edrychiad yr amgylchedd adeiledig mewn tref. Bydd yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys y ffurf, maint, steil a chyfosodiad cyffredinol y datblygiad.

10. Fframweithiau Perthnasol a Chanllawiau Pellach



11. Manylion Cyswilt

Arboricultural Association (AA)

Ullenwood Court, Ullenwood, Cheltenham, Gloucestershire, GL53 9QS.

Ffôn: 0 1242 522152

E-bost: admin@trees.org.uk

Gwefan: www.trees.org.uk/

Cyngor ynglŷn â choed ac yn cynhyrchu cyfeirlyfr blynyddol o dyfwyr coed (Ymgynghorwyr coed) cofrestredig yr AA a chontractwyr (Meddygwyr Coed).

Arboricultural Advisory & Information Service

Alice Holt Lodge, Wrecclesham, Farnham, Surrey, GU10 4LH.

Ffôn: 09065 161147 (cyfradd premiwm) neu weinyddol 01420 22022

E-bost: admin@treehelp.info

Gwefan: www.treehelp.info/

Cyngor a chanllawiau ar ofal coed a materion yn ymwneud â choed ar safleoedd datblygu.

BALI, British Association of Landscape Industries

Ffôn: 024 7669 0333

E-bost: contact@bali.org.uk

Gwefan: www.bali.co.uk

Sefydlwyd Cymdeithas Brydeinig y Diwydiannau Tirlunio i hyrwyddo, cefnogi ac ysbrydoli'r holl dirlunwyr proffesiynol, dylunwyr gerddi a chyflenwyr tirlunio i fod yn arweinwyr diwydiant tirlunio cynaliadwy amgylcheddol, moesegol a masnachol.

Sefydliad Safonau Prydeinig

Customer Services, 389 Chiswick High Road, Llundain, W4 4AL

Ffôn: 020 8996 9001

E-bost: cservices@bsigroup.com

Gwefan: www.bsi-global.com

Yn darparu Safonau Prydeinig .

Consulting Arborist Society (CAS)

E-bost: chairman@consultingarboristsociety.co.uk

Gwefan: www.consultingarboristsociety.co.uk

Yn darparu rhestr o dyfwyr coed cymeradwy CAS (Ymgynghorwyr Coed).

Comisiwn Dylunio Cymru

4ydd Llawr Adeilad Dau, Caspian Point, Caspian Way, Bae Caerdydd, CF10 4DQ

Ffôn: 029 2045 1964

Gwefan: www.dcfw.org

Institute of Chartered Foresters

59 George Street, Caeredin, EH2 2JG.

Ffôn: 0131 2401425

Gwefan: www.charteredforesters.org

Yn darparu rhestr o'r holl dyfwyr coed (Ymgynghorwyr Coed) a choedwigwyr siartredig.

International Society of Arboriculture (UK & Ireland) Chapter

148 Hydes Road, Wednesbury, West Midlands, WS10 0DR.

Ffôn: 0121 556 8302

E-bost: enquiries@isa-arboriculture.org.uk

Gwefan: <http://www.isa-arboriculture.org/>

Yn darparu canllawiau a llyfrau ynglŷn â choed a datblygu ac yn cynhyrchu rhestr o dyfwyr coed (Meddygwyr Coed) cofrestredig ISA.

Landscape Institute

Charles Darwin House, 12 Roger Street, Llundain, WC1N 2JU

Ffôn: 020 7685 2640

Gwefan: www.landscapeinstitute.org

National Joint Utilities Group (NJUG)

111 Buckingham Palace Road, Llundain, SW1W 0SR.

Ffôn: 0207 340 8737

e-bost: info@njug.org.uk

Gwefan: www.njug.org.uk/

Yn cynhyrchu canllawiau ynglŷn â gwasanaethau yn agos at goed (NJUG 4).

Cyfoeth Naturiol Cymru

Ffôn: 0300 065 3000 (Llun-Gwener, 8am - 6pm)

Gwefan: www.naturalresourceswales.gov.uk

Cyngor ynglŷn â rhywogaethau a chynefinoedd a ddiogelir.

RIBA

RIBA Headquarters, 66 Portland Place, Llundain W1B 1AD

Ffôn: 0207 580 5533

e-bost: info@riba.org

Gwefan: www.architecture.com

Royal Town Planning Institute

The Royal Town Planning Institute, 41 Botolph Lane

Llundain, EC3R 8DL.

Ffôn: 020 7929 9494

Gwefan: www.rtpi.org.uk

Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Ffôn: Saesneg: 0300 0603300 neu 0845 010 3300

Cymraeg: 0300 0604400 neu 0845 010 4400

Gwefan: www.wales.gov.uk